Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau ar weithredu diwygiadau Ymadael â'r UE i'r Rheoliadau Ffioedd Ymwelwyr Tramor

Chewfror 2023

llyw.cymru

# Cynnwys


2 Pennod 1: Diben y Canllawiau

4 Pennod 2: Crynodeb

6 Pennod 3: Deddf Mewnfudo 2014

7 Pennod 4: Y Gordal Iechyd Mewnfudo

- Eithriad rhag ffioedd
- Sut i adnabod rhywun sydd wedi talu'r ffi iechyd

14 Pennod 5: Cyn-breswylwyr y DU

17 Pennod 6: Gofal iechyd i ddinasyddion yr UE ac EFTA

17 - Y Cytundeb Ymadael â'r UE
18 - Ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)
19 - Ceisiadau hwyr i'r EUSS
20 - Ni wnaed cais i'r EUSS
20 - Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE: Protocol SSC
22 - Confensiwn SSC y DU a'r Swistir
22 - Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC)
26 - Beth am ddod i Gymru ar gyfer triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw?
27 - Adennill costau triniaeth o dan lwybrau EHIC ac S2
27 - Pobl sy'n preswylio yn un o wledydd yr UE y mae talu eu costau gofal iechyd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r DU
28 - Pensiynwyr y DU sy'n byw yn un o wledydd yr UE neu EFTA
29 - Pryd y dyroddir S2 gan y DU ar gyfer personau sy'n byw yn un o wledydd yr UE
29 - Hawliau a gwybodaeth cleifion
29 - Materion Ewropeaidd eraill


OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46811, ISBN digidol 978-1-80535-502-1

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**31** Pennod 7: Cytundebau gofal iechyd cilyddol eraill a rhwymedigaethau rhyngwladol

**35** Pennod 8: Adennill Costaul

**36** Atodiad A: Pryd i ddarparu gwasanaethau perthnasol i'r rhai nad ydynt wedi'u heithrio rhag ffioedd

**41** Atodiad B: Gwybodaeth am 'Preswylio fel arfer'

**44** Atodiad C: Gwybodaeth am wahanol gategorïau o bobl a all wneud cais am ganiatâd i ddod i mewn a dogfennau sy'n ofynnol

PENNOD 1

# Diben y Canllawiau

**1.1** Mae'r canllawiau hyn yn ceisio rhoi help a chyngor ar weithredu newidiadau i ffioedd ymwelwyr tramor â Chymru:

- o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE);
- y trefniadau newydd sy'n deillio o berthynas y DU â'r UE o dan y Protocol ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (SSC) sydd wedi'i gynnwys yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE (TCA);
- y newidiadau canlyniadol a wnaed yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2022;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023.

**1.2** Fodd bynnag, ni all y canllawiau gwmpasu popeth ac ni fwriedir iddynt ddisodli'r Rheoliadau eu hunain sy'n cynnwys y darpariaethau cyfreithiol, na bod yn ddatganiad diffiniol ar eu cyfer. Cynghorir Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) i gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar faint eu rhwymedigaethau pan fo angen.

**1.3** Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 yw'r llinell sylfaen y dylai BILlau weithio ohoni, gan ystyried yr holl Reoliadau diwygio eraill a wnaed ers 1989, gan gynnwys Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2022 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023.

**1.4** Nid yw'r llawlyfr canllaw hwn yn disodli nac yn cymryd lle'r canllawiau blaenorol ar weithredu'r Rheoliadau Ffioedd Ymwelwyr Tramor. Mae i'w ddefnyddio ar y cyd â'r ddogfen honno ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau mewn rheoliadau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Rhagfyr 2020 a'r Protocol dilynol ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (SSC) sydd wedi'i gynnwys yng Nghytundeb Masnach a chydweithredu'r DU a'r UE (TCA).

**1.5** O ganlyniad i'r SSC/TCA, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (y "Diwygiadau Ymadael"), a wnaed fel rhan o baratoadau'r DU i ymadael â'r UE heb gytundeb, wedi'u dirymu a'u disodli gan y canlynol:

- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020** a ddaeth i rym ar ddiwedd y Cyfnod Pontio (31 Rhagfyr 2020);
- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**, a ddaeth i rym ar 26 Mawrth 2021; a
- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023**, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2023.

PENNOD 2

# Crynodeb

**2.1** Mae dinasyddion yr UE ac EFTA sy’n preswylio’n gyfreithlon yn y DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 yn cadw eu hawl i ofal iechyd cyn belled â’u bod yn parhau i fod yn preswylio yma fel arfer. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddynt fod wedi gwneud cais i’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE erbyn 30 Mehefin 2021 ac wedi cael Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog er mwyn sicrhau’r hawliau hyn ar gyfer y dyfodol, a bydd eu hawliau’n ddarostyngedig i unrhyw newidiadau i bolisi domestig yn y dyfodol sy’n berthnasol i wladolion y DU. Gall aelodau cymwys o’r teulu ymuno â dinasyddion yr UE ac EFTA sy’n preswylio’n gyfreithlon yn y DU cyn 31 Rhagfyr 2020, cyn belled â’u bod hefyd yn gwneud cais i’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS). Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU amddiffyniad dros dro ar gyfer aelodau’r teulu am dri mis ar ôl iddynt gyrraedd y DU, hyd yn oed os nad ydynt wedi gwneud cais i’r EUSS eto. Bydd angen iddynt wneud cais i’r EUSS o fewn tri mis i gyrraedd er mwyn parhau i dderbyn gofal iechyd am ddim. Bydd ganddynt hawl o hyd i gael gofal iechyd am ddim, yn amodol ar y prawf preswylio fel arfer, hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar eu cais.

**2.2** Yn gyffredinol, bydd dinasyddion yr UE sy’n symud i’r DU o 1 Ionawr 2021 yn talu’r Gordal Iechyd Mewnfudo (gordal iechyd) fel rhan o unrhyw gais am fisa. Gall y rhai y mae eu costau gofal iechyd yn cael eu talu gan aelod-wladwriaeth o’r UE o dan y Protocol SSC, megis pensiynwyr y wladwriaeth sydd wedi’u hyswirio gan yr UE neu weithwyr datgysylltiedig sydd â dogfen S1 ddilys, neu fyfyrwyr cymwys sydd â Cherdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) aelod-wladwriaeth ddilys, fod yn gymwys i gael ad-daliad o’u taliad gordal iechyd.

**2.3** O dan y Cytundeb Ymadael â’r UE a’r Protocol SSC, gall ymwelwyr tramor sy’n preswylio yn un o wledydd yr UE (gan gynnwys gwladolion trydedd wlad) gael eu hyswirio o dan y system yswiriant gofal iechyd cyhoeddus yn aelod-wladwriaeth yr UE lle maent yn preswylio fel arfer, y wlad y maent yn derbyn pensiwn y wladwriaeth ganddi, neu’r wlad y maent yn gweithio ynddi. O ganlyniad, byddant yn cael eu heithrio o dan y Rheoliadau Ffioedd rhag ffioedd am driniaeth y maent yn gymwys i’w derbyn cyn belled â’u bod yn cyflwyno dogfen gofal iechyd briodol yr UE. Y rheswm am hyn yw y gall y DU adennill cost eu gofal gan yr aelod-wladwriaeth yswirio berthnasol, os cofnodir manylion eu ffurflen gofal iechyd. Gellir adennill costau ble bynnag y darperir y driniaeth hon, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau sydd ‘am ddim i bawb’ e.e. mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, neu ar gyfer gofal sylfaenol y GIG.
Mae deiliaid EHIC neu Dystysgrif Newydd Dros Dro (PRC) yn gymwys i dderbyn triniaeth pan fydd anghenion yn codi yn ddi-dâl; bydd deiliaid S1 a roddwyd gan y DU a symudodd i breswylio mewn aelod-wladwriaeth o’r UE cyn 31 Rhagfyr 2020 yn gymwys i gael gwasanaethau gofal iechyd ar yr un sail â rhywun sy’n preswylio fel arfer yn y DU o dan y Protocol SSC.

**2.4** Mae'r ffordd y mae person yn gymwys fel person sydd wedi'i yswirio yn amrywio yn dibynnu ar y wlad y mae'n preswylio fel arfer ynddi, ei waith neu ei bensiwn y wladwriaeth. Fodd bynnag, ym mhob achos lle mae rhywun wedi'i yswirio o dan y system gyhoeddus ar gyfer gofal iechyd anghenion sy'n codi, bydd ganddo EHIC neu PRC o'r wlad yn yr UE lle mae wedi'i yswirio, neu dylai fod ganddo'r hawl i fod ag un o'r rhain. Mae hyn yn cynnwys gwladolion Prydeinig sydd wedi'u hyswirio yn un o wledydd yr UE. Dyroddir yr EHIC/PRC gan y wlad sy'n yswirio, nad yw o reidrwydd yn wlad dinasyddiaeth y person. Gall y claf neu ei gynrychiolydd drefnu i gael EHIC/PRC o'r wlad berthnasol. Bydd gan bob aelod o'r teulu, gan gynnwys plant, ei EHIC neu ei PRC ei hun. Gall ymwelwyr tramor sydd wedi'u hyswirio gan yr UE gael ffurflen S2 hefyd os ydynt yn dymuno ceisio triniaeth mamolaeth neu driniaeth wedi'i chynllunio yn y DU, neu S1 os ydynt yn byw neu'n gweithio yn y DU a'r aelod-wladwriaeth sy'n rhoi'r ffurflen sy'n gyfrifol am eu costau gofal iechyd yn y DU.

**2.5** Bydd preswylwyr yr UE sy'n dod i'r DU dros dro i ddilyn cwrs astudio, ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021, neu ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2021 ar gyfer trigolion y Swistir, ac sy'n para mwy na chwe mis, yn talu'r gordal iechyd fel rhan o'u cais am fisa. Gall y rhai sydd wedi'u hyswirio gan eu haelod-wladwriaeth breswyl ac nad ydynt yn gweithio wrth astudio yn y DU fod yn gymwys i gael ad-daliad o'u taliad gordal iechyd. Agorodd ceisiadau am ad-daliad myfyrwyr ym mis Ionawr 2022. Bydd gan y rhai sy'n cael ad-daliad hawl yn unig i gael triniaeth feddygol angenrheidiol am ddim yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr ad-daliad hwnnw a rhaid iddynt gyflwyno EHIC neu PRC dilys i gael y driniaeth honno'n ddi-dâl, oni bai bod eithriad arall yn rheoliadau Codi Tâl Cymru yn gymwys. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n cael eu had-dalu hefyd gyflwyno S2 ar gyfer unrhyw driniaeth wedi'i chynllunio y maent am ei chael am ddim.

**2.6** Mater i'r clinigydd sy'n trin yr unigolyn yw penderfynu a yw triniaeth yn cael ei hystyried yn 'angenrheidiol yn feddygol' (a elwir hefyd yn 'anghenion sy'n codi') gan gofio hyd disgwyliedig arhosiad myfyriwr yng Nghymru. Er y gallai rhai myfyrwyr deithio adref yn ystod y gwyliau, ni ddylid disgwyl iddynt ddychwelyd i'w mamwlad yn gynt na'r bwriad i gael triniaeth, er enghraifft cyn i'w cwrs ddod i ben.

**2.7** Pan fydd corff perthnasol yn trin claf sydd wedi'i yswirio yn yr UE neu'r Swistir, dylai hysbysu'r Tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor yn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA) am fanylion y ddogfen EHIC/PRC/S2 sydd gan y person hwnnw. Mae angen yr wybodaeth hon er mwyn caniatáu i'r DU adennill y gost o drin preswylwyr yr UE o'r wlad berthnasol.

**2.8** Yn achos ymwelwyr o'r UE neu'r Swistir i'r DU nad oes ganddynt EHIC, PRC, S1 neu S2 dilys ac nad ydynt yn dod o dan gategori eithriad arall yn y Rheoliadau Ffioedd, rhaid codi ffioedd arnynt am wasanaethau a gânt pan fyddant yn cael mynediad at ofal. Rhaid codi ffioedd arnynt ar gyfradd tariff y BILL.

**2.9** Mae gwledydd EFTA y Swistir, Liechtenstein, Gwlad yr Iâ a Norwy y tu allan i'r SSC/TCA. Bydd ymwelwyr EFTA cymwys yn cael eu heithrio rhag ffioedd os gallant gyflwyno EHIC/PRC, S1 neu S2 dilys o'r wlad berthnasol.

**2.10** Er mwyn cynorthwyo Rheolwyr Ymwelwyr Tramor (OVM) i benderfynu ar ddarparu gofal iechyd y GIG i bobl nad ydynt wedi'u heithrio rhag ffioedd, mae Atodiad A yn darparu gwybodaeth fanylach am driniaeth sydd ei hangen ar unwaith, triniaeth frys neu driniaeth nad yw'n frys.

PENNOD 3

# Deddf Mewnfudo 2014

**3.1** Gwnaeth Deddf Mewnfudo 2014 newidiadau i'r rheolau ffioedd. Mae'r newidiadau hyn yn ddeublyg.

**3.2** Yn gyntaf, mae adran 39 o Ddeddf Mewnfudo 2014 yn newid ystyr "ordinarily resident" yn adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 fel y mae'n ymwneud â phobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Ers 6 Ebrill 2015, mae'n rhaid i bobl nad ydynt yn wladolion yr AEE hefyd gael caniatâd amhenodol i aros yn y DU er mwyn bod yn preswylio yma fel arfer. Ers 1 Ionawr 2021, mae hyn hefyd yn berthnasol i wladolion yr UE ac EFTA. Mae Atodiad B yn rhoi mwy o wybodaeth am breswylio fel arfer.

**3.3** Yn ail, awdurdododd adran 38 o Ddeddf Mewnfudo 2014 yr Ysgrifennydd Cartref i gyflwyno'r Gordal Iechyd Mewnfudo (gordal iechyd) i'w dalu gan bobl nad ydynt yn wladolion yr AEE, sy'n destun rheolaeth fewnfudo, sy'n gwneud cais i breswylio dros dro yn y DU am chwe mis neu fwy. Nodir swm y gordal iechyd sydd i'w dalu yng Ngorchymyn Mewnfudo (Tâl Iechyd) 2015, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2015. Ers 1 Ionawr 2021, mae'r gofyniad i dalu'r gordal iechyd hefyd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o wladolion yr UE ac EFTA sy'n ceisio preswylio dros dro yn y DU am chwe mis neu fwy.

**3.4** Telir y gordal iechyd ar yr un pryd ag y mae ymgeisydd am fisa yn talu ei ffi gwneud cais am fisa. Mae eithriadau rhag gorfod talu'r gordal iechyd ar gyfer rhai pobl, ac mae gan yr Ysgrifennydd Cartref y disgresiwn i leihau, ad-dalu neu hepgor y gordal iechyd neu ran ohono. Mae'r gordal iechyd yn daladwy ar gyfer ymgeiswyr fisa newydd sydd wedi gwneud cais am fisa ar neu ar ôl 27 Ebrill 2015. Mae Pennod 4 yn esbonio mwy am y gordal iechyd a sut i adnabod a phrosesu pobl sydd wedi talu, sydd wedi'u heithrio, neu sydd wedi'u hepgor rhag talu'r gordal iechyd.

**3.5** Mae rhai o'r canllawiau mewn perthynas â Deddf Mewnfudo 2014 a'r gordal iechyd mewnfudo yn cwmpasu ymwelwyr o wledydd heblaw gwladwriaethau'r UE/EFTA. Fodd bynnag, maent wedi'u cynnwys yma i fod o gymorth i Reolwyr Ymwelwyr Tramor (OVM).

PENNOD 4

# Y Gordal Iechyd Mewnfudo

## Sut i ymdrin â rhywun ac adnabod rhywun sydd wedi talu neu sydd wedi'i eithrio rhag talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo

**4.1** Mae'r bennod hon yn ymwneud â phobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo sy'n gwneud cais i ddod i'r DU am fwy na chwe mis, neu i ymestyn cyfnod caniatâd i aros yn y DU. Nid yw'n ymwneud â'r rhai sy'n dod i'r DU am chwe mis neu lai, y rhai ar fisâu ymwelwyr neu'r rhai sy'n dod i'r DU nad ydynt yn destun rheolaeth mewnfudo.

**4.2** Mae gordal iechyd yn daladwy gan bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo sy'n gwneud cais am fisa i ddod i mewn i'r DU am fwy na chwe mis neu sy'n gwneud cais i aros yn y DU dros dro. Nid yw pobl sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU, yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn destun rheolaeth fewnfudo (e.e. diplomyddion a anfonwyd i'r DU), yn atebol am dalu'r gordal iechyd, ond gallant fod yn preswylio fel arfer ac â'r hawl i dderbyn gwasanaethau perthnasol yn rhad ac am ddim ar y sail honno.

**4.3** Mae talu'r gordal iechyd yn rhoi'r hawl i'r rhai sy'n talu gael mynediad at wasanaethau perthnasol ar sail debyg i rywun sy'n preswylio fel arfer. Mae ganddynt yr hawl i wasanaethau perthnasol am ddim lle cânt eu defnyddio, gan gynnwys gofal ysbyty, sydd, yng Nghymru, hefyd yn cynnwys gwasanaethau beichiogi â chymorth (e.e. IVF) a phresgripsiynau am ddim. Rhaid iddynt dalu am wasanaethau y mae'n rhaid i breswylydd arferol yng Nghymru dalu amdanynt hefyd, megis deintyddiaeth, oni bai eu bod hefyd yn bodloni'r meini prawf eithrio penodol ar gyfer y gwasanaethau hynny.

**4.4** Mae talu'r gordal iechyd yn orfodol wrth wneud cais mewnfudo, yn amodol ar eithriadau ar gyfer categorïau penodol o bobl a disgresiwn yr Ysgrifennydd Cartref i leihau, hepgor neu ad-dalu'r taliad gordal iechyd neu ran ohono. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn hefyd yn derbyn gwasanaethau perthnasol ar sail debyg i berson sy'n preswylio fel arfer.[1]

**4.5** Nodir yr eithriadau i dalu'r gordal iechyd yn Atodlen 2 o Orchymyn Mewnfudo (Tâl Iechyd) 2015 ac maent yn cynnwys y canlynol[2]:

- pobl sy'n gwneud cais am ganiatâd mynediad lle mae'r caniatâd i ddod i mewn am chwe mis neu lai
- pobl sy'n gwneud cais am ganiatâd mynediad neu ganiatâd i aros o dan y Rheolau Mewnfudo fel ymwelwyr
- pobl sy'n gwneud cais am ganiatâd i ddod i mewn i neu i aros pan fo'r ffi wedi'i heithrio ar gyfer y llwybr mynediad hwnnw (e.e. fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal)
- plentyn o dan 18 oed sy'n gwneud cais am ganiatâd o unrhyw fath i aros ac sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol[3]

1 Os oes ad-daliad wedi'i wneud o dan y Protocol Cydgysylltu Nawdd Cymdeithasol am eu bod yn ddinesydd sydd wedi'i yswirio gan yr UE gydag S1 dilys o'r UE neu fyfyriwr o'r UE sydd ag EHIC dilys o'r UE, byddant yn parhau i fod yn gymwys i gael gofal iechyd am ddim gan y GIG hyd y gellir rhagweld.

2 Gall categorïau eithrio ar gyfer talu'r gordal iechyd newid, er enghraifft nid yw'r rhai sy'n ceisio caniatâd mynediad neu ganiatâd i aros fel mudwyr Haen 2 sy'n trosglwyddo o fewn cwmnïau bellach wedi'u heithrio o 27 Ebrill 2017 ymlaen.

3 Mae gan blant ar eu pen eu hunain, sy'n geiswyr lloches, yn ffoaduriaid, neu'n geiswyr lloches aflwyddiannus, oll hawl i gael gofal iechyd am ddim.

- person, a'i ddibynyddion, sy'n gwneud cais am ganiatâd i aros sy'n ymwneud â hawliad:
  - am loches neu ddiogelwch dyngarol; neu
  - y byddai gorfodi iddo symud o'r DU yn groes i Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- dioddefwyr caethwasiaeth fodern (sy'n cynnwys dioddefwyr masnachu pobl neu gaethwasiaeth, gwasanaethfraint a llafur gorfodol) gyda phenderfyniad sail bendant cadarnhaol, sy'n gwneud cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn i aros (oherwydd amgylchiadau personol, i helpu'r heddlu gyda'u hymholiadau neu i wneud hawliad iawndal yn erbyn eu masnachwr), neu o dan baragraff 159I o'r Rheolau Mewnfudo (darpariaeth ar gyfer dioddefwyr sy'n weithwyr domestig tramor) a'u dibynyddion
- person sy'n gwneud cais am ganiatâd i aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo gyda mynediad at arian cyhoeddus o dan bolisi "Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd" y Swyddfa Gartref a'i ddibynyddion
- person sy'n gwneud cais am ganiatâd mynediad neu ganiatâd i aros fel dibynnydd i aelod o luoedd Ei Mawrhydi o dan y rheolau mewnfudo
- person sy'n gwneud cais am ganiatad
- mynediad neu ganiatad i aros fel dibynnydd aelod o lu sydd wedi'i eithrio rhag rheolaeth fewnfudo o dan adran 8(4)(b) ac (c) o Ddeddf Mewnfudo 1971, wrth wneud cais am ganiatâd mynediad neu ganiatâd i aros o dan y rheolau mewnfudo
- person sy'n gwneud cais am ganiatâd mynediad neu ganiatâd i aros pan fo darpariaeth ar gyfer caniatâd mynediad neu ganiatâd i aros o'r fath wedi'i gwneud yn unol â rhwymedigaeth yr UE a ddargedwir
- person sy'n gwneud cais am ganiatâd mynediad o dan unrhyw reolau mewnfudo a nodir yn y rheolau mewnfudo fel rhai sy'n cael effaith mewn cysylltiad â rhoi caniatâd mynediad at ddibenion cael caniatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU yn rhinwedd Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo
- person sy'n gwneud cais am ganiatâd i aros yn rhinwedd Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo
- dinesydd Tiriogaethau Tramor Prydeinig sy'n preswylio yn Ynysoedd Falkland.

**4.6** Ar 27 Hydref 2020, **y gordal iechyd** yw £624 y flwyddyn fesul ymgeisydd, gyda chyfradd ostyngol o £470 y flwyddyn i fyfyrwyr a'u dibynyddion, deiliaid fisa'r Cynllun Symudedd Ieuenctid a'r rhai sydd o dan 18 oed adeg gwneud y cais. Cesglir y gordal iechyd gan y Swyddfa Gartref ochr yn ochr â'r ffi ymgeisio mewnfudo oni bai bod eithriad yn berthnasol. Rhaid talu'r gordal iechyd ar gyfer pob ymgeisydd ac ar gyfer pob dibynnydd sydd wedi'i gynnwys mewn cais am fisa. Mae hyn yn sicrhau bod ymwelwyr hirdymor yn gwneud cyfraniad ariannol at y GIG.

**4.7** Rhaid talu'r gordal iechyd yn llawn am bob blwyddyn, neu ran o flwyddyn, y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais i aros amdani. Os na fydd y gordal iechyd yn cael ei dalu (ac eithrio pan fydd eithriad rhag ei dalu yn berthnasol, neu pan fydd yr Ysgrifennydd Cartref yn hepgor, yn ad-dalu neu'n lleihau'r gordal iechyd) bydd y cais mewnfudo yn cael ei wrthod neu ei ystyried yn annilys neu, os rhoddwyd caniatâd i ddod i mewn/aros, bydd y caniatâd hwnnw'n cael ei ganslo.

## Eithriad rhag ffioedd

**4.8** Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn darparu ar gyfer eithriad rhag ffioedd i bobl sydd:

- wedi talu'r gordal iechyd;
- wedi'u heithrio rhag talu'r gordal iechyd (gweler paragraff 4.5 uchod am restr lawn o eithriadau), ac eithrio pan fyddant wedi'u heithrio yn rhinwedd bod yn ymwelydd â'r

DU, o ganlyniad i wneud cais am ganiatâd i ddod i mewn am chwe mis neu lai neu yn rhinwedd gwneud cais am ganiatâd mynediad cyn 6 Ebrill 2016, o dan Ran 2 o'r rheolau mewnfudo (ymwelwyr â'r DU) neu ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 o dan Atodiad V i'r rheolau mewnfudo (rheolau mewnfudo ar gyfer ymwelwyr) – mae'r bobl hyn yn dal i fod yn atebol am ffioedd. Fodd bynnag, bydd person yn parhau i fod wedi'i eithrio rhag ffioedd pan fo'r person hwnnw wedi'i eithrio rhag talu ffi iechyd mewnfudo yn rhinwedd Atodlen 2, paragraff 1(o) o Orchymyn Mewnfudo (Tâl Iechyd) 2015

- mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi arfer ei ddisgresiwn i:
  - hepgor y gordal iechyd; neu
  - leihau'r gordal iechyd.

Ac eithrio hynny, bydd ffioedd yn dal i fod yn berthnasol mewn perthynas â gwasanaethau perthnasol a ddarperir i ymwelydd tramor y rhoddir caniatâd iddo aros yn y Deyrnas Unedig o dan Atodiad Ymwelydd Gofal Iechyd S2 i'r rheolau mewnfudo, ac y mae hepgoriad i'r ffi iechyd mewnfudo yn gymwys mewn perthynas ag ef, lle nad yw'r gwasanaethau perthnasol hynny yn rhan o'r driniaeth gofal iechyd a gynlluniwyd a awdurdodir gan dystysgrif gofal iechyd S2 y person hwnnw[4].

- mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi arfer ei ddisgresiwn i ad-dalu rhan o ordal iechyd. Ni chaniateir codi ffi na'i hadennill gan berson mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau perthnasol a ddarperir i berson ar neu ar ôl 27 Hydref 2020 ac yn ystod y cyfnod perthnasol a phan fo ffi mewnfudo wedi cael ei had-dalu'n llawn mewn perthynas â'r person hwnnw ar y sail ei fod yn berson sy'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol neu'n ddibynnydd person sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

**4.9** Dim ond ar yr un sail â phreswylydd arferol y mae gan unigolyn sy'n talu'r gordal iechyd yr hawl i gael triniaeth am ddim unwaith y bydd ei gais am fisa wedi'i ganiatáu, ac nid o'r dyddiad y telir y gordal iechyd. Mae'r eithriad rhag ffioedd am wasanaethau perthnasol yn berthnasol i gyfnod y caniatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU a roddir i'r person.

**4.10** Bydd unigolion sy'n dod i'r DU am chwe mis neu lai, neu fel ymwelydd, yn atebol am ffioedd o dan y rheoliadau ffioedd oni bai bod eithriad arall rhag ffioedd yn berthnasol.

**4.11** Os ad-dalwyd Gordal Iechyd Mewnfudo person o dan y trefniadau perthnasol ym Mhrotocol SSC y DU-UE neu Gonfensiwn SSC y DU-Y Swistir, bydd yn parhau i fod wedi'i eithrio rhag ffioedd am wasanaethau perthnasol gan y bydd wedi'i yswirio am ofal iechyd gan Aelod-wladwriaeth yr UE neu'r Swistir. Bydd angen iddynt fod ag EHIC (neu PRC) i gael mynediad at driniaeth feddygol angenrheidiol am ddim ac S2 i gael mynediad at driniaeth wedi'i chynllunio am ddim oni bai bod eithriad arall o dan y Rheoliadau Codi Tâl yn berthnasol. Efallai y bydd gan rai myfyrwyr hefyd dystysgrif S1 sy'n rhoi'r hawl i'r deiliad gael gofal iechyd am ddim yn y DU y telir amdano gan y wlad sy'n rhoi'r dystysgrif.

**4.12** Fodd bynnag, mewn achosion eraill lle mae unigolion yn cael ad-daliad llawn o'u gordal iechyd nid drwy Brotocol SSC y DU-UE neu Gonfensiwn SSC y DU-Y Swistir, gellir codi ffioedd arnynt am wasanaethau perthnasol yn y man darparu oni bai bod eithriad arall yn y Rheoliadau Ffioedd yn berthnasol neu pan wnaed yr ad-daliad llawn am eu bod yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys lle maent yn ddibynyddion gweithwyr o'r fath).

---

4 Caniateir i ymwelwyr Gofal Iechyd S2 ddod i'r DU ac aros yno a am hyd at 6 mis os yw'r unigolyn wedi cael caniatâd i dderbyn gofal iechyd wedi'i gynllunio o dan y 'trefniant S2' neu os yw'n dod gyda rhywun sydd wedi cael caniatâd neu'n ymuno â rhywun sydd wedi cael caniatâd. Gallant wneud cais i ymestyn eu harhosiad fel Ymwelydd Gofal Iechyd S2 am ddim, os yw'r cyfnod triniaeth gofal iechyd arfaethedig am fwy na 6 mis. Enter the UK as an S2 Healthcare Visitor - GOV.UK (**www.gov.uk**)

Pan fo'r gordal iechyd wedi'i ad-dalu gan nad oedd y person wedi hawlio eithriad rhag talu'r gordal iechyd yr oedd ganddo'r hawl iddo yn y lle cyntaf, bydd y person wedi'i eithrio rhag ffioedd am wasanaethau perthnasol yn yr un modd ag eraill sydd wedi'u heithrio rhag talu'r gordal iechyd (ac eithrio ymwelwyr y codir ffioedd arnynt fel arfer am wasanaethau perthnasol).

**4.13** Pan fo person wedi cael ad-daliad o'r gordal iechyd, neu ran ohono, o dan Brotocol SSC y DU-UE neu Gonfensiwn SSC y DU-Y Swistir, codir ffioedd arno am ofal iechyd nad yw'n dod o dan ei S1 neu, yn achos myfyrwyr, eu EHIC/PRC.

**4.14** Ni fydd y rhai a wnaeth gais am ganiatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU cyn gweithredu'r gordal iechyd (6 Ebrill 2015 ac 1 Ionawr 2021 ar gyfer gwledydd yr UE/EFTA) yn gorfod talu'r gordal iechyd yn ôl-weithredol, gan na fyddant yn cael cyfle i dalu'r gordal iechyd nes y tro nesaf iddynt wneud cais mewnfudo. Bydd ymwelwyr tramor sydd wedi gwneud ceisiadau am ganiatâd mynediad neu ganiatâd i aros cyn dechrau'r ffi iechyd mewnfudo yn elwa ar eithriad rhag ffioedd yn unol â Rheoliad 4G o'r Rheoliadau Ffioedd. Byddant yn atebol i dalu'r gordal iechyd os byddant yn gwneud cais pellach am ganiatâd i aros yn y DU ar ôl 6 Ebrill 2015, yn amodol ar fod yn gymwys i gael eu heithrio neu eu hepgor rhag talu'r gordal iechyd.

**4.15** Pan fo person yn gwneud cais mewn pryd (cyn i'w ganiatâd presennol ddod i ben) am ganiatâd pellach i ddod i mewn i neu i aros yn y DU, a bod ei ganiatâd presennol yn cael ei ymestyn hyd nes y ceir canlyniad y cais hwnnw, bydd yn parhau i gael ei eithrio rhag ffioedd am wasanaethau perthnasol hyd nes y daw unrhyw gyfnod estynedig o'i ganiatâd presennol i ben.

**4.16** Mae'r Rheoliadau Ffioedd yn cynnwys eithriad ar gyfer ffioedd mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau sy'n ffurfio rhan o'r gwasanaeth iechyd a ddarperir ar gyfer ymwelydd tramor sydd wedi preswylio'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o ddim llai na blwyddyn yn union cyn yr adeg y darperir y gwasanaethau (oni bai bod y cyfnod preswylio hwn yn dilyn caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig at ddiben cael triniaeth feddygol breifat)[5]. Pan fo person yn bodloni'r cymhwyster preswylio hwn ar ddyddiad yn ystod cwrs triniaeth y gellid bod wedi codi ffioedd amdano cyn y dyddiad hwnnw, ni chodir ffioedd mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir wedi hynny. Os pennir nad yw person yn bodloni'r cymhwyster preswylio hwn a bod y person hwnnw eisoes wedi derbyn gwasanaethau fel rhan o gwrs triniaeth ar y sail na fyddai unrhyw ffioedd yn cael eu codi, ni chaniateir codi ffioedd am weddill y cwrs hwnnw o driniaeth. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr lle nad yw'r cymhwyster preswylio yn gymwys.

**4.17** Bydd plentyn a anwyd yn y Deyrnas Unedig i berson sydd wedi'i eithrio rhag ffioedd o dan Reoliadau 4F neu 4G o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2022 hefyd wedi'i eithrio rhag ffioedd tra'i fod yn dri mis oed neu'n iau ar yr amod nad yw'r plentyn wedi gadael y DU ers ei eni. Dylai rhieni sicrhau eu bod yn rheoleiddio statws mewnfudo eu plentyn yn y DU yn ystod y cyfnod hwn o dri mis. Gallai hyn gynnwys bod y rhiant yn talu'r gordal iechyd ar ran ei blentyn. Os nad yw'r rhiant yn rheoleiddio statws ei blentyn, bydd yn atebol am unrhyw ffioedd am driniaeth a ddarperir i'r plentyn ar ôl y cyfnod o dri mis oni bai ei fod yn gymwys ar gyfer unrhyw eithriadau eraill.

5 Rheoliad 4(1)(b) o'r Rheoliadau Codi Tâl. Dylid bod yn ymwybodol nad oedd yr eithriad hwn yn destun ystyriaeth yn R v Barnet LBC ex parte Shah [1983] 1 All ER 226 lle'r oedd Tŷ'r Arglwyddi yn penderfynu nad oes unrhyw gyfnod gofynnol y mae'n rhaid i berson fod yn preswylio ynddo er mwyn bod yn gymwys fel "preswylydd fel arfer". Mae'r eithriad hwn yn gymwys unwaith y bydd wedi'i sefydlu bod rhywun yn "preswylio fel arfer" ac felly bod y Rheoliadau Codi Tâl yn gymwys iddo. Gweler Atodiad B i weld y diffiniad o breswylydd arferol.







## Sut i adnabod rhywun sydd wedi talu'r gordal iechyd

### Y Drwydded Breswylio Fiometrig

**4.18** Mae'r Drwydded Breswylio Fiometrig (BRP) yn darparu ffordd syml a diogel o bennu a dilysu statws mewnfudo a hawliau person. Mae'n cynnwys ffotograff y deiliad, gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol a'i statws mewnfudo, gan gynnwys unrhyw amodau perthnasol a'r dyddiad y daw'r cerdyn a'r hawliau i ben, ar wyneb y cerdyn.

**4.19** O 1 Ionawr 2021 ymlaen, bydd unrhyw wladolyn tramor[6] y rhoddwyd caniatâd iddo aros am fwy na 6 mis, ac eithrio caniatâd o dan y cynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE, yn cael dogfen fewnfudo fiometrig. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn cynnwys statws mewnfudo ar-lein, ond bydd y Swyddfa Gartref yn dal i roi BRP ffisegol i wladolion tramor sydd angen un i deithio i'r DU. Mae'r canlynol yn enghraifft o BRP.

**4.20** Nid oes unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â thaliad gordal iechyd wedi'i chynnwys ar y cerdyn. Ers mis Ebrill 2015, pan gyflwynwyd y gordal iechyd, dim ond os ydynt wedi talu'r gordal iechyd, eu bod wedi'u heithrio neu eu hepgor rhag talu'r gordal iechyd neu eu bod wedi cael caniatâd i aros yn y DU cyn i'r gordal iechyd gael ei weithredu y bydd gan y mwyafrif llethol o unigolion nad ydynt yn wladolion AEE sy'n destun rheolaeth fewnfudo BRP. Felly, mae BRP ddilys yn dangos bod yr unigolyn yn debygol o fod yn gymwys i gael gwasanaethau perthnasol ar yr un sail â phreswylydd arferol, oni bai bod y BRP wedi'i marcio'n glir i ddangos bod y mudwr wedi gwneud cais mewn categori ymwelydd.

**4.21** Mae gwladolion trydedd wlad sy'n dod i'r DU o dramor am fwy na chwe mis yn cael vignette dilysrwydd byr aml-fynediad 30 diwrnod yn eu pasbort i'w galluogi i deithio i'r DU i gasglu eu BRP. Mae'r vignette yn dystiolaeth bod unigolyn wedi talu'r gordal iechyd, neu ei fod wedi'i eithrio neu ei hepgor rhag talu, os nad yw wedi casglu ei BRP eto.

**4.22** Ers mis Mai 2019, mae gwladolion Awstralia, Canada, Japan, Seland Newydd, Singapore, De Korea ac Unol Daleithiau America yn gymwys i ddefnyddio gatiau eBasbort i ddod i mewn i'r DU, yn amodol ar rai eithriadau, a/neu ymuno â'r trefniadau ciwio presennol ar gyfer dinasyddion yr UE/EFTA. I ddefnyddio'r gatiau, rhaid i unigolion fod â phasbort biometrig, bod dros 18 oed (neu rhwng 12 a 17 os oes oedolyn gyda nhw), bod yn ymwelydd, bod â fisa caniatâd mynediad, BRP neu ganiatâd amhenodol. Bydd swyddogion Llu'r Ffiniau yn bresennol a byddant yn gweithredu os oes angen gwneud hynny, er enghraifft, os yw person sydd mewn dyled i'r GIG yn dychwelyd i'r DU.

6 Erbyn hyn, mae gwladolion tramor yn cynnwys dinasyddion yr UE ac EFTA.

**4.23** Ni fydd gwladolion o'r gwledydd hyn sy'n ymweld â'r DU am lai na 6 mis yn cael eu pasbort wedi'i stampio/cymeradwyo wrth gyrraedd, felly ni fyddant yn gallu dangos eu dyddiad dod i mewn i'r DU drwy stamp yn eu pasbort. Bydd y rhai sy'n dod i'r DU am fwy na 6 mis yn parhau i gael vignette wedi'i osod yn eu pasbort ac wedyn yn cael BRP y gellir ei defnyddio i ddangos tystiolaeth o'u statws yn y DU. Ni fydd swyddogion Llu'r Ffiniau bellach yn holi teithwyr o'r gwledydd hyn sy'n defnyddio gatiau eBasbort fel mater o drefn, ond byddant yn dal i siarad ag unigolion lle mae rheswm dros wneud hynny.

**4.24** O 31 Ionawr 2021, agorodd y DU lwybr fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor) (BNO) Hong Kong ar gyfer Gwladolion Prydeinig (Tramor) a'u dibynyddion, i'w galluogi i ddod i'r DU i fyw, astudio a gweithio. Fel gyda fisâu eraill, bydd y gordal iechyd yn daladwy ac, ar ôl 5 mlynedd yn y DU, byddant yn gallu gwneud cais i breswylio'n sefydlog (a elwir hefyd yn ganiatâd amhenodol i aros), ac yna dinasyddiaeth Brydeinig ar ôl 12 mis arall. Pan gymeradwyir cais ar lwybr fisa BNO Hong Kong, bydd yr unigolyn yn cael vignette yn ei basbort a BRP neu, ar gyfer ceisiadau a wnaed ar ôl 23 Chwefror 2021 drwy'r broses gwbl ddigidol, statws digidol. Gellir dilysu'r ddau drwy'r gwasanaethau ar-lein 'gweld a phrofi' neu 'gwiriwr statws'. Gall gwasanaeth gwirio'r Swyddfa Gartref hefyd roi cyngor i'r GIG ynghylch statws mewnfudo person. Rhagor o wybodaeth yn: **Rhaglen groesawu Gwladolion Prydeinig (Tramor) Hong Kong – gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol – GOV.UK (www.gov.uk)**

**4.25** Mae un categori eithriadol o unigolion sy'n cael BRP ond y gellir codi ffioedd arnynt am wasanaethau perthnasol. Mae nifer fach o ymwelwyr y caniateir iddynt aros am fwy na chwe mis ond llai na blwyddyn (gan gynnwys ymwelwyr academaidd ac ymwelwyr meddygol preifat). Bydd gan y bobl hyn BRP ond ni fyddant wedi talu'r gordal iechyd a dylent orfod talu ffioedd ymwelwyr tramor (oni bai bod eithriad gwahanol yn y Rheoliadau Ffioedd yn berthnasol). Bydd eu BRP yn cael eu marcio i ddangos eu statws 'ymwelydd'.

**4.26** Bydd eu BRP yn ddilys am y cyfnod a ddangosir ar y cerdyn yn unig, sy'n cwmpasu'r cyfnod o ganiatâd a roddwyd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU. Os yw'r cerdyn wedi dod i ben, ac nad yw'r unigolyn wedi cael cerdyn newydd i ymestyn ei arhosiad neu os na all ddarparu tystiolaeth ei fod yn y broses o wneud cais mewn pryd (h.y. cyflwynodd ei gais cyn i'w ganiatâd blaenorol ddod i ben), mae'n debygol y codir ffioedd arno am wasanaethau perthnasol. Mae'n debygol y bydd unigolyn y mae ei ganiatâd wedi'i gwtogi yn gorfod talu am wasanaethau perthnasol. Fodd bynnag, efallai y bydd yn meddu ar BRP nad yw wedi dod i ben eto. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwirio am ddiweddariadau ar statws mewnfudo claf.

**4.27** Ni fydd rhai categorïau o fudwyr yn cael BRP. Mae hyn yn cynnwys ceiswyr lloches a'r rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd fel dioddefwyr trais domestig. Bydd y grwpiau hyn yn cael eu heithrio rhag talu'r gordal iechyd a bydd cofnod y GIG yn cael ei greu ar eu cyfer sy'n dangos eu statws 'gwyrdd'.

**4.28** Mae gan rai gwladolion trydedd wlad yr hawl i fyw yn y DU fel aelodau o deulu gwladolyn yr UE/EFTA sydd wedi arfer hawliau Cytuniad yr UE cyn 31 Rhagfyr 2020, drwy weithio yn y DU gan amlaf. Mae'r unigolion hyn wedi'u heithrio rhag talu'r gordal iechyd a byddant wedi cael Cerdyn Preswylio Biometrig (BRC) yn hytrach na BRP o fis Ebrill 2015. Bydd y BRC bron yn union yr un fath o ran arddull a sylwedd i'r BRP, a dylid ei drin yn yr un modd i ddilysu cymhwystra i gael gwasanaethau perthnasol yn ddi-dâl. Dylid annog unigolion sy'n cyflwyno BRC AEE ar ôl 30 Mehefin 2021 i wneud cais am ganiatâd o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

## Dim cofnod y GIG yn weladwy a dim BRP

**4.29** Mae cyfnod pontio lle nad oes gan rai pobl sydd wedi talu'r gordal iechyd, neu sydd wedi'u heithrio neu eu hepgor rhag talu'r gordal iechyd, gofnod y GIG na BRP. Mae'r unigolion hyn yn debygol o fod yn:

- wladolion gwlad lle na chyhoeddwyd y BRP ar adeg y broses ymgeisio mewnfudo (gellir dilysu hyn gyda'r Swyddfa Gartref/ Tîm Gwirio, Ymholiadau a Gwirio Statws (SVEC) drwy e-bostio **ICESSVECWorkflow@homeoffice.gov.uk**)
- pobl a wnaeth gais am ganiatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU cyn gweithredu'r gordal iechyd neu a fydd wedi'u heithrio rhag ffioedd hyd nes y daw eu fisa presennol i ben
- pobl sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban neu Loegr
- y rhai sydd wedi'u heithrio rhag talu'r gordal iechyd ac nad ydynt yn cael BRP.

**4.30** Ni roddir BRP i geiswyr lloches na'r rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd i aros fel dioddefwyr trais domestig hyd nes y gwneir penderfyniad i roi caniatâd iddynt aros. Dylai fod gan y grwpiau hyn gofnod y GIG ond, os nad oes un ar gael, dylai OVM barhau i ddefnyddio crebwyll da a dogfennau eraill sydd ar gael megis y Cerdyn Cofrestru Ceisiadau (ARC) neu dystiolaeth o eithriad rhag talu'r gordal iechyd gan y Swyddfa Gartref i bennu cymhwystra i gael gwasanaethau perthnasol yn ddi-dâl.

**4.31** Myfyrwyr o'r UE a'r Swistir sydd wedi talu am eu DB ac wedi cael ad-daliad.

**4.32** Bydd angen i OVM barhau i arfer crebwyll da a gwneud ymholiadau i'r Tîm Dilysu, Ymholiadau a Gwirio Statws yn y Swyddfa Gartref (SVEC), lle nad yw unigolion wedi'u cofnodi a lle na allwch gadarnhau bod y gordal iechyd wedi'i dalu. Nid yw system bresennol y Swyddfa Gartref yn gwahaniaethu rhwng myfyriwr sydd wedi talu'r IHS a myfyriwr sydd wedi talu'r IHS ond sydd wedi cael ad-daliad (er bod hyn yn debygol o newid wrth i systemau gael eu diweddaru yn y dyfodol). Yn achos myfyrwyr o'r UE a'r Swistir, bydd angen i OVM barhau i ddefnyddio'u crebwyll a chynnal gwiriadau cymesur i ganfod a yw cleifiion wedi derbyn ad-daliad o'u HIS ac, os ydynt, eu bod wedi darparu tystiolaeth o'u hawl ar ffurf EHIC, PRC, S2 neu S1, lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

## Gwirio statws

**4.33** Mae Atodiad C yn amlinellu gwahanol gategorïau o bobl a all wneud cais am ganiatâd i ddod i mewn i ac i aros yn y DU am gyfnod o fwy na chwe mis, ac a fydd felly yng nghwmpas talu'r gordal iechyd, a'r dogfennau y dylai OVM ofyn amdanynt i ddilysu eu statws.

PENNOD 5

# Cyn-breswylwyr y DU

**5.1** Fel arfer, codir ffioedd ar gyn-breswylwyr arferol y DU sydd wedi allfudo ac nad ydynt yn byw yn y DU mwyach pan fyddant yn ymweld â'r DU. Fodd bynnag, mae dau beth pwysig i'w hystyried cyn codi ffioedd: a yw'r claf yn dal i fod yn preswylio fel arfer yn y DU, ac, os nad yw, a oes ganddo unrhyw eithriad rhag ffioedd o dan y Rheoliadau Ffioedd.

**5.2** Mae'n fwyaf tebygol y bydd dinasyddion Prydain ac unigolion nad ydynt yn wladolion y DU sydd â chaniatâd amhenodol i aros sy'n dychwelyd i ailgychwyn statws preswylydd sefydlog yn y DU yn bodloni'r prawf preswylio fel arfer o'u dyddiad cyrraedd (gan ragdybio bod eu preswyliad yn gyfreithlon ac wedi'i fabwysiadu'n wirfoddol). O 30 Mehefin 2021, bydd angen i wladolion yr UE/EFTA fod â statws cyfreithlon h.y. preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog o dan yr EUSS er mwyn bodloni'r prawf preswylio fel arfer.

**5.3** Gall y categorïau eithrio canlynol fod yn berthnasol i'r rhai nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU:

- **Rheoliad 4B** – gall ymwelwyr tramor sydd â hawliau dinasyddion: gall pobl sydd yng nghwmpas Teitl III o ran 2 o'r cytundeb ymadael (e.e. gwladolion y DU sy'n byw yn un o wledydd yr UE ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020), Teitl III o Ran 2 o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu gytundeb hawliau dinasyddion y Swistir barhau i dderbyn gwasanaethau perthnasol yn ddi-dâl. Mae'n datgan hefyd y bydd gan aelodau teulu person o'r fath yr hawl i dderbyn gofal iechyd anghenion sy'n codi yn ddi-dâl, yn amodol ar amodau penodol.
- **Rheoliad 4C** – Ymwelwyr tramor sydd â thystysgrif gofal iechyd S1 a roddwyd gan y Deyrnas Unedig neu ddogfen gyfatebol: mae gwladolion y DU sy'n derbyn pensiwn y DU ac sydd â thystysgrif gofal iechyd S1 a roddwyd gan y DU sy'n preswylio fel arfer yn un o wledydd yr UE neu EFTA ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 wedi'u heithrio rhag ffioedd am yr holl wasanaethau perthnasol, gan gynnwys triniaeth ddewisol. Mae'n datgan hefyd fod priod neu bartner sifil yr ymwelydd tramor, a phlentyn y mae gan yr ymwelydd tramor gyfrifoldeb rhiant drosto, wedi'u heithrio rhag ffioedd.
- **Rheoliad 4D** – Pobl sy'n gwneud ceisiadau hwyr o dan Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo: mae'n datgan na chodir ffioedd ar berson sy'n gwneud cais hwyr o dan Atodiad EU am wasanaethau perthnasol a ddarperir tra bod eu cais yn cael ei benderfynu.
- **Rheoliad 4E** – Ymwelwyr tramor sydd â hawliau o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: mae gan wladolion y DU sy'n byw yng ngwledydd yr UE sydd o fewn cwmpas darpariaethau Protocol SSC y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yr hawl i wasanaethau perthnasol yn ddi-dâl.
- **Atodlen 2** – Cytundebau gofal iechyd cilyddol: Gall cyn-breswylwyr y DU sy'n byw mewn gwledydd y mae gan y DU gytundeb gofal iechyd cilyddol â nhw gael eu cwmpasu gan delerau'r cytundeb hwnnw, a gall fod ganddynt yr hawl i wasanaethau perthnasol yn ddi-dâl (fel arfer ar gyfer gofal iechyd anghenion sy'n codi yn unig, ond bydd yn dibynnu ar delerau'r cytundeb perthnasol).

PENNOD 6

# Gofal iechyd i ddinasyddion yr UE ac EFTA

**6.1** Mae angen i OVM fod yn ymwybodol o'r hawliau y mae cytundebau gofal iechyd cilyddol yn eu darparu yn ychwanegol at yr hawliau a ddarperir mewn mannau eraill o dan y Rheoliadau Ffioedd. Dylai BILlau geisio adnabod cynifer â phosibl o gleifion sy'n dod o dan gytundebau o'r fath a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol i alluogi adennill costau. Gall y DU hawlio ad-daliad o'r gost o ddarparu gofal iechyd i ymwelwyr o dan y cytundebau hyn, os caiff data penodol eu cofnodi.

**6.2** Fel arfer, bydd cymhwystra person o dan y cytundebau yn cael ei bennu drwy ddarparu'r ddogfen gofal iechyd cilyddol berthnasol (EHIC, PRC, S1 neu S2) yn cadarnhau y bydd costau iechyd y deiliad yn cael eu talu gan y wlad dan sylw.

**6.3** Mae'n bwysig cofio bod y canllawiau hyn yn ceisio darparu cymaint o help a chyngor â phosibl. Fodd bynnag, ni allant gwmpasu popeth ac ni fwriedir iddynt ddisodli'r Rheoliadau Ffioedd eu hunain, sy'n cynnwys y darpariaethau cyfreithiol.

## Y Cytundeb Ymadael â'r UE

**6.4** Mae rheoliad 4B o'r Rheoliadau Ffioedd yn ymwneud â hawliau i driniaeth am ddim i ddinasyddion yr UE ac EFTA o dan delerau'r Cytundeb Ymadael.

**6.5** Mae'r Cytundeb Ymadael yn nodi telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar hawliau dinasyddion. Mae'n diogelu hawliau dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yn y DU a gwladolion y DU ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yng ngwledydd yr UE. Mae Cytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir yn ymestyn darpariaethau hawliau dinasyddion y Cytundeb Ymadael i wladolion y gwladwriaethau hyn a gwladolion y DU sydd wedi symud rhwng y DU a'r gwladwriaethau hyn cyn diwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys Norwy, lle gall gwladolion o'r DU sydd wedi ymgartrefu yn Norwy gyda hawliau o dan Gytundeb Gwahanu y DU-AEE EFTA, ddefnyddio'u EHIC Norwyaidd wrth ymweld â'r DU. Ceir rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau hawliau dinasyddion yn **nogfen esbonio'r Cytundeb Ymadael ar gyfer rhan 2: hawliau dinasyddion a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO)**.

**6.6** Bydd aelodau'r teulu (er enghraifft, priod a phartneriaid sifil, plant y mae gan ymwelydd tramor gyfrifoldeb drostynt) a goroeswyr yr unigolion hyn yn cadw yswiriant gofal iechyd ar yr un telerau â chyn diwedd y cyfnod pontio.

**6.7** Bydd gan wladolion y DU a oedd yn byw'n gyfreithlon yn un o wledydd yr UE neu EFTA ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 yr hawl i gael gofal iechyd yn ddi-dâl yn y DU, gan ddefnyddio EHIC/PRC neu S2 dilys

a gyhoeddwyd gan aelod-wladwriaeth, neu S1 y DU ar gyfer y rhai y mae eu costau gofal iechyd yn gyfrifoldeb i'r DU.

**6.8** Gall ymwelwyr o wledydd yr UE ac EFTA y gwnaeth eu hymweliad â'r DU gychwyn ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 ac sy'n parhau'n ddi-dor wedi hynny barhau i ddefnyddio eu EHIC ar gyfer gofal iechyd anghenion sy'n codi. I dwristiaid, mae hyn tan ddiwedd eu harhosiad dros dro; i fyfyrwyr, mae hyn fel arfer tan ddiwedd y cwrs astudio. Gallant hefyd gwblhau triniaeth wedi'i chynllunio yn y DU, lle gofynnwyd am awdurdodiad ar gyfer hyn gan yr awdurdod iechyd perthnasol yn eu mamwlad ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020, a bod yr awdurdodiad hwnnw wedyn wedi'i roi.

**6.9** Bydd gweithwyr datgysylltiedig (y rhai a anfonwyd i weithio yn y DU o wlad o'r UE neu EFTA) y dechreuodd eu lleoliad cyn 31 Rhagfyr 2020 yn gymwys i gael gofal iechyd am ddim gydol eu lleoliad.

## Ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

**6.10** Bydd dinasyddion yr UE ac EFTA sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn cadw eu hawl i gael gofal iechyd am ddim lle maent yn bodloni'r prawf preswylio fel arfer. O 1 Gorffennaf 2021, rhaid iddynt fodloni'r prawf preswylio fel arfer a meddu ar naill ai statws sefydlog neu statws cyn-sefydlog o dan yr EUSS (derbynnir ceisiadau hwyr o dan rai amgylchiadau. Bydd y rhai sy'n disgwyl canlyniad cais a gyflwynwyd ar neu cyn 30 Mehefin 2021 wedi derbyn Tystysgrif Cais (CoA) a bydd ganddynt yr hawl i gael gofal iechyd am ddim, yn amodol ar y prawf preswylio fel arfer, hyd nes y bydd y canlyniad hwnnw'n hysbys (ac yn ystod cyfnod unrhyw apêl ddilynol a wneir hyd nes y bydd canlyniad yr apêl yn hysbys).

**6.11** Os bydd claf yn honni bod ganddo Dystysgrif Cais ond nad yw'n gallu ei darparu adeg y driniaeth, dylai OVM gysylltu â gwasanaeth SVEC y Swyddfa Gartref i gael cadarnhad, drwy e-bostio ICESSVECWorkflow@homeoffice.gov.uk. Bydd y gwiriad statws yn ddilys am 6 mis ac ni ddylid cyflwyno gwiriad arall o fewn y cyfnod hwn. Ar ôl 6 mis, bydd angen gwiriad pellach gyda'r SVEC.

**6.12** Gall OVM hefyd gael gafael ar wybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU, Gwirio statws mewnfudo rhywun – GOV.UK (www.gov.uk), ar yr amod bod y person wedi cael 'Cod Rhannu' i'w ddefnyddio i brofi ei statws i eraill e.e. cyflogwyr ac ati. Bydd y rhai sy'n cael statws EUSS yn gallu darparu cod rhannu.

**6.13** Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn golygu y bydd gwybodaeth y Swyddfa Gartref yn dangos pan fo rhywun wedi cael statws EUSS yn hygyrch drwy Wasanaeth Demograffig Cymru (WDS). Bydd cofnodion y GIG ar gyfer y rhai a gafodd statws EUSS yn dangos un o ddau eicon, fel y dangosir isod. Bydd trydydd eicon yn dangos bod cronfa ddata'r Swyddfa Gartref wedi'i gwirio, ac na ddychwelwyd unrhyw statws.

**Statws Preswylydd Sefydlog (Caniatâd Amhenodol i aros) wedi'i ganfod ar wefan y Swyddfa Gartref**

| EUSS Details | | |
|---|---|---|
| EU Settled Status | EU | Settled Status Verified |

**Statws Preswylydd Cyn-sefydlog (Caniatâd i aros) wedi'i ganfod ar wefan y Swyddfa Gartref**

| EUSS Details | | |
|---|---|---|
| EU Settled Status | EU | Pre-Settled Status Verified |

**Dim statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog a geir ar wefan y Swyddfa Gartref**

| EUSS Details | |
|---|---|
| EU Settled Status | No EU Settled / Pre-Settled Status |

Bydd y statws hwn yn cael ei ail-wirio bob tro y caiff y claf ei dderbyn i'r ysbyty. Mae'r rhain yn dangos statws mewnfudo yn unig; rhaid i'r unigolyn barhau i fodloni'r prawf preswylio fel arfer i fod yn gymwys i gael gofal iechyd am ddim.

**6.14** Os yw'r Swyddfa Gartref wedi derbyn cais i'r EUSS cyn 30 Mehefin 2021 ac wedi dyroddi Tystysgrif Cais (CoA) ond nad yw'r cais wedi'i benderfynu eto, ni ellir codi ffioedd ar y person o'r dyddiad y gwnaed y cais. Pan fo ffioedd eisoes wedi'u hanfonebu i'r unigolyn hwn yn y cyfnod hwnnw, ni ddylid eu hadennill. Pan fo ffioedd eisoes wedi'u talu gan yr unigolyn am driniaeth a gafwyd ar ôl iddo wneud ei gais, rhaid iddynt gael eu had-dalu gan y corff perthnasol.

**6.15** Os mai canlyniad cais i'r EUSS gan y Swyddfa Gartref yw gwrthod rhoi statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog, dylid ystyried y person fel claf y gellir codi ffioedd arno (oni bai bod eithriad arall yn berthnasol). Mae hyn yn berthnasol o'r pwynt y caiff penderfyniad y Swyddfa Gartref ei gadarnhau. Os gwneir apêl yn erbyn y penderfyniad, ni ddylid codi ffioedd o'r pwynt y gwnaed yr apêl hyd nes y penderfynir ar ganlyniad yr apêl. Mae'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn i ddarparu tystiolaeth o'r apêl gan na fydd CoA yn dystiolaeth berthnasol gan mai dim ond ar gyfer ceisiadau cychwynnol mae CoA. Os mai canlyniad yr apêl yw penderfyniad y Swyddfa Gartref i roi statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog, ni ddylid codi ffioedd ar y person.

Os mai'r canlyniad unwaith eto yw gwrthod rhoi statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog, dylid ystyried y person fel claf y gellir codi ffioedd arno (oni bai bod eithriad arall yn berthnasol) o adeg yr hysbysiad hwnnw.

**6.16** Gall dinasyddion yr UE ac EFTA sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 gael aelodau cymwys o'u teulu agos i ymuno â nhw yn y DU (priod, partneriaid sifil a di-briod, plant dibynnol ac wyrion ac wyrion, a rhieni a neiniau a theidiau dibynnol) lle'r oedd y berthynas yn bodoli ar 31 Rhagfyr 2020 ac yn dal i fodoli pan fyddant yn dymuno dod i'r DU. Bydd angen trwydded deuluol EUSS arnynt a fydd yn ddilys am chwe mis, a rhaid iddynt hefyd wneud cais i'r EUSS cyn i'r drwydded ddod i ben.

**6.17** Ni fydd angen i ddinasyddion Iwerddon yn y DU wneud cais am statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog i ddiogelu eu hawliau oherwydd trefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin.

## Aelodau o deulu deiliaid statws EUSS sy'n ymuno â hwy

**6.18** Mae pobl sy'n ymuno ag aelodau o'u teulu[7], gan gynnwys y rhai heb drwydded teulu EUSS, yn gymwys i gael triniaeth am ddim yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl cyrraedd y DU, hyd yn oed os nad ydynt wedi gwneud cais i'r EUSS eto. Bydd angen iddynt wneud cais EUSS o fewn tri mis i gyrraedd er mwyn parhau i dderbyn gofal iechyd am ddim. Bydd ganddynt hawl o hyd i ofal iechyd am ddim, yn amodol ar y prawf preswylio arferol, hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar eu cais.

7 Mae Llywodraeth y DU yn diffinio aelodau agos o deulu person (priod, partneriaid sifil a phartneriaid di-briod, plant ac wyrion dibynnol, a rhieni a neiniau a theidiau dibynol) o fewn cwmpas y Cytundeb Ymadael, os oedd y berthynas yn bodoli ar 31 Rhagfyr 2020 ac yn dal i fodoli pan fydd yr aelod o'r teulu yn dymuno ymuno â'r person sydd o fewn y cwmpas. Gall plant sy'n cael eu geni neu eu mabwysiadu ar ôl 31 Rhagfyr 2020 hefyd ymuno ag aelodau cymwys o'r teulu yn y DU.

**6.19** Gall pobl sy'n ymuno ag aelodau o'u teulu gyflwyno cais EUSS hwyr (mwy na 3 mis ar ôl cyrraedd y DU) os oes ganddynt sail resymol dros wneud hynny. Os bydd unigolion sy'n ymuno â'u teulu yn dewis peidio â gwneud cais i'r EUSS, dylent sicrhau bod ganddynt yswiriant iechyd priodol neu EHIC Aelod-wladwriaeth ddilys drwy gydol eu harhosiad er mwyn cael mynediad at ofal iechyd sy'n angenrheidiol yn feddygol.

**6.20** Dylai OVM annog pobl sy'n ymuno â'u teulu ymuno i wneud cais i'r cynllun EUSS gan mai statws EUSS neu Dystysgrif Cais (CoA) yw'r ffordd fwyaf syml o ddangos hawl. Os nad yw'r aelod teulu wedi gwneud cais i'r EUSS o fewn y tri mis cyntaf i gyrraedd ac felly nad oes ganddo Dystysgrif Cais (CoA) neu statws EUSS eto, dylai OVM barhau i ddefnyddio'u crebwyll ac ystyried dogfennau eraill sydd ar gael i ganfod a yw'r claf yn gymwys i gael triniaeth am ddim yn y tri mis cyntaf ar ôl cyrraedd y DU. Mae rhestr nad yw'n gynhwysfawr o dystiolaeth amgen y gellid ei darparu gan unigolyn sy'n ymuno â'i deulu i'w gweld yn y tabl isod.

| Gallai tystiolaeth o berthynas deuluol gynnwys: | Tystiolaeth o gyrraedd y DU yn y tri mis diwethaf: |
|---|---|
| • Tystysgrif Priodas neu Bartneriaeth Sifil<br>• Tystysgrif Geni neu Fabwysiadu<br>• Trwydded deuluol EUSS<br>• Pasbort (lle bo'r berthynas wedi'i sefydlu erbyn 31 Rhagfyr 2020)<br>• Bil Treth Gyngor ag enwau ar y cyd – yn ddilys ar gyfer y flwyddyn gyfredol<br>• Datganiad banc, cymdeithas adeiladu neu gerdyn credyd ar y cyd datganiadau – heb fod yn hŷn na thri mis oed<br>• Cytundebau tenantiaeth / datganiadau morgais / Llyfr rhent awdurdod lleol ag enwau ar y cyd<br>• Biliau cyfleustodau ag enwau ar y cyd<br>• Cytundebau cyllid<br>• Ffurflenni treth<br>• Cytundeb benthyciad<br>• Pŵer atwrnai | • Dogfen deithio<br>• Stamp pasbort yn cadarnhau mynediad ar ffin y DU<br>• Tocyn teithio wedi'i ddefnyddio<br>• Trwydded deuluol EUSS |

## Ceisiadau hwyr i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

**6.21** Mae rheoliad 4D yn ymwneud â hawliau i ofal iechyd am ddim i bobl sy'n gwneud cais hwyr i'r EUSS (Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo).

**6.22** Bydd y Swyddfa Gartref yn derbyn ceisiadau hwyr i'r EUSS, lle maent yn derbyn bod gan y person "sail resymol" dros wneud cais ar ôl y dyddiad gofynnol (30 Mehefin 2021).

**6.23** Pan fo cais hwyr wedi'i wneud i'r Swyddfa Gartref, fel y dengys CoA, dylid ystyried bod y person yn glaf na ddylid codi ffioedd arno o ddyddiad ei gais hyd nes y bydd y Swyddfa Gartref wedi penderfynu ar ganlyniad y cais hwnnw. Os bydd claf yn dweud bod ganddo CoA ond nad yw'n gallu ei darparu ar adeg y driniaeth, dylai OVM gysylltu â gwasanaeth SVEC y Swyddfa Gartref i gael cadarnhad, drwy anfon e-bost at **ICESSVECWorkflow@homeoffice.gov.uk**. Bydd y gwiriad statws yn ddilys am 6 mis ac ni ddylid cyflwyno ail wiriad o fewn y cyfnod hwn. Os rhoddir statws EUSS i'r unigolyn, bydd hyn yn cael ei arddangos ar WDS gan ddefnyddio gwybodaeth wedi'i diweddaru gan y Swyddfa Gartref. Fel arall, ar ôl 6 mis bydd angen gwiriad pellach gyda SVEC.

**6.24** Pan fo'r Swyddfa Gartref yn derbyn cais hwyr i'r EUSS ac yn rhoi statws i berson o dan y cynllun hwnnw, ni ddylid codi ffioedd ar y person o'r dyddiad pan gyflwynwyd y cais hwyr, yn unol â Rheoliad 4D. Pan fo ffioedd eisoes wedi cael eu codi ar yr unigolyn hwnnw, ni ddylid eu hadennill. Pan fo'r ffioedd eisoes wedi cael eu talu gan yr unigolyn ar gyfer triniaeth a gafodd ar ôl iddo gyflwyno ei gais hwyr – sy'n gallu cynnwys unigolion sy'n profi oedi rhwng cyflwyno cais EUSS dilys a chael CoA, rhaid i'r ffioedd hynny gael eu had-dalu gan y corff perthnasol. Dylid adennill ffioedd a godwyd cyn i'r cais hwyr gael ei gyflwyno.

**6.25** Pan fydd y Swyddfa Gartref yn gwrthod cais hwyr i'r EUSS, dylid ystyried y person yn glaf y dylid codi ffioedd arno o ddyddiad gwrthod y cais (oni bai bod eithriad arall yn berthnasol).

**6.26** Pe bai cais hwyr yn cael ei wrthod gan y Swyddfa Gartref, a bod yr ymgeisydd yn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, dylid ystyried ei fod wedi'i eithrio rhag ffioedd o dan Reoliad 4D nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu'n derfynol.

## Ni wnaed cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

**6.27** Bydd unigolyn sy'n gymwys i wneud cais i'r EUSS ond nad yw wedi cyflwyno cais erbyn 30 Mehefin 2021, neu sydd wedi cyflwyno cais hwyr ac nad yw'n aelod o deulu sy'n ymuno nad yw wedi cyrraedd y DU yn ystod y tri mis diwethaf, ac felly sydd yn y DU heb statws mewnfudo, yn gorfod talu ffioedd. Os bydd yn derbyn ac yn talu am wasanaethau perthnasol, ac yna'n gwneud cais hwyr yn ddiweddarach, a bod hwnnw'n cael ei dderbyn, ni ddylid ei ad-dalu am y driniaeth gynharach. Dylid ei ystyried yn erbyn y prawf preswylio fel arfer wrth gael mynediad at wasanaethau ar ôl y dyddiad y rhoddwyd statws EUSS iddo.

**6.28** Dylai OVM annog y rhai sy'n gymwys i gael statws EUSS (neu'r rhai sy'n eu cynrychioli, er enghraifft, cynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd a benodir gan lys, gwarcheidwad neu weithiwr cymdeithasol) i wneud cais hwyr. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu pob math o gymorth i ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu sydd angen cymorth ar-lein.

## Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE: Protocol SSC

**6.29** Mae rheoliad 4E o'r Rheoliadau Ffioedd yn ymwneud â hawliau preswylwyr yr UE o dan y darpariaethau nawdd cymdeithasol yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE (Protocol SSC). Mae'r Protocol SSC yn sicrhau, pan fo'r DU neu Aelod-wladwriaeth o'r UE yn gyfrifol am ofal iechyd unigolyn, y bydd ganddo'r hawl i gael yswiriant gofal iechyd cilyddol o dan rai amgylchiadau.

**6.30** Bydd dinasyddion yr UE sy'n symud i'r DU o 1 Ionawr 2021 fel arfer yn talu'r gordal iechyd mewnfudo fel rhan o unrhyw gais am fisa. Gall rhai o drigolion yr UE, megis pensiynwyr gwladwriaeth yr UE neu weithwyr datgysylltiedig sydd ag S1, sydd wedi'u hyswirio mewn aelod-wladwriaeth o'r UE, gael ad-daliad. Dylid rhoi gwybod i BSA y GIG.

**6.31** Nid yw'r Protocol SSC yn berthnasol i ymwelwyr tramor o wledydd EFTA. Mae gan y Swistir Gonfensiwn SSC ar wahân sy'n weithredol o 1 Tachwedd 2021 (gweler yr adran isod ar Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir). Dylid codi ffioedd ar ymwelwyr o Wlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy am ofal iechyd y GIG, oni bai bod ganddynt hawliau o dan y Cytundeb Ymadael, bod eithriad arall o dan y Rheoliadau Ffioedd yn berthnasol neu fod cytundeb gofal iechyd cilyddol wedi'i roi ar waith. Dylid nodi bod cytundeb cyfyngedig gyda Norwy sy'n caniatáu i ddinasyddion Prydain gael triniaeth sy'n angenrheidiol yn feddygol yn rhad ac am ddim yn Norwy drwy gyflwyno pasbort (Dinesydd Prydeinig) ac i'r gwrthwyneb.

## Pwy sy'n gallu cael gofal iechyd o dan y Protocol SSC?

**6.32** Mae'r Protocol SSC yn berthnasol i bob un o 27 aelod-wladwriaeth yr UE, a'r DU:

- Awstria
- Bwlgaria
- Croatia
- Cyprus (De)
- Denmarc
- Estonia
- Ffrainc
- Gwlad Belg
- Gwlad Groeg
- Gwlad Pwyl
- Hwngari
- Iwerddon
- Latfia
- Lithwania
- Lwcsembwrg
- Malta
- Portiwgal
- Rwmania
- Slofacia
- Slofenia
- Sbaen
- Sweden
- Yr Almaen
- Yr Eidal
- Y Ffindir
- Yr Iseldiroedd
- Y Weriniaeth Tsiec

**6.33** Nid yw'r Protocol SSC yn berthnasol i wledydd EFTA. Mae'r DU wedi cytuno ar Gonfensiwn ar wahân ar SSC gyda'r Swistir.

**6.34** Mae gan y DU gytundebau gofal iechyd cilyddol gyda rhai gwledydd Ewropeaidd eraill hefyd, ond mae'r rhain y tu allan i'r Protocol SSC (gweler Pennod 7).

**6.35** Bydd OVM yn ymwybodol bod Cyfarwyddeb 2011/24/EU ar gymhwyso hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol – a elwir hefyd yn Gyfarwyddeb Gofal Iechyd Trawsffiniol – wedi peidio â bod yn gymwys yn y DU o 1 Ionawr 2021, ac eithrio ar gyfer achosion trosiannol sydd ar y gweill ar 31 Rhagfyr 2020.

**6.36** Dim ond preswylwyr penodedig sydd wedi'u 'hyswirio' o dan unrhyw system gofal iechyd cyhoeddus un o wledydd yr UE neu gan y DU sy'n cael eu cwmpasu gan y Protocol SSC pan fyddant yn ymweld â'r DU. Yn fanwl, mae hyn yn cynnwys:

- gwladolion yr UE a'r rhai nad ydynt yn wladolion yr UE, pobl heb wladwriaeth neu ffoaduriaid, ynghyd ag aelodau o'u teulu a goroeswyr (waeth beth fo'u cenedligrwydd) y grwpiau hyn o bobl, sy'n preswylio'n gyfreithlon ac wedi'u hyswirio ym mhob achos o dan unrhyw system gofal iechyd cyhoeddus yn un o wledydd yr UE (D.S. gallant fod wedi'u 'hyswirio' gan y DU hyd yn oed os ydynt yn byw dramor);
- unigolion nad ydynt yn wladolion yr AEE sy'n preswylio'n gyfreithlon ac wedi'u hyswirio mewn unrhyw wlad yn yr UE (ac eithrio Denmarc).

## Confensiwn SSC y DU a'r Swistir

### Pwy sy'n gallu cael gofal iechyd o dan Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir?

**6.37** Os mai'r DU neu'r Swistir sy'n gyfrifol am ofal iechyd unigolyn (h.y. mae'n cael ei "yswirio" gan y wlad honno), bydd ganddo'r hawl i gael gofal iechyd cilyddol penodol yn y Wladwriaeth arall os yw'n wladolyn y Swistir, yn wladolyn y DU, yn ddinesydd yr UE, yn ffoadur, yn berson heb wladwriaeth neu'n aelod o deulu neu oroeswr rhywun â chenedligrwydd neu statws o'r fath.

**6.38** Gall unigolion sy'n meddu ar genedligrwydd un wladwriaeth (e.e. y DU) gael eu hyswirio gan y wladwriaeth arall (e.e. y Swistir) ac, yn yr achos hwnnw, byddant yn cael eu cwmpasu gan y Confensiwn hwn.

**6.39** Dim ond i unigolion sy'n dod o dan gwmpas y cytundeb hwn y bydd y Swistir yn rhoi dogfennau hawl. Felly, os oes gan unigolyn EHIC, PRC, S1 neu S2, mae yng nghwmpas y Confensiwn ac nid oes angen cynnal unrhyw wiriadau cymhwysedd pellach.

**6.40** Gall unigolion yng nghwmpas y Confensiwn (h.y. sy'n bodloni'r gofynion cenedligrwydd) sydd ar arhosiad dros dro yn y wladwriaeth arall (gan gynnwys myfyrwyr) gael gofal iechyd angenrheidiol am ddim yn y wladwriaeth arall gan ddefnyddio GHIC, EHIC neu PRC fel dogfennau hawl.

**6.41** Mae Confensiwn y DU a'r Swistir ar SSC yn cynnig gofal iechyd cynhwysfawr i unigolion perthnasol sy'n byw yn y naill wladwriaeth ond yn cael eu hyswirio yn y llall. Mae hyn yn cwmpasu categorïau penodol o weithwyr trawsffiniol. Mae hefyd yn cwmpasu unigolion perthnasol sy'n allforio pensiwn y wladwriaeth i'r wladwriaeth ac unigolion sy'n allforio budd-daliadau cymwys i'r wladwriaeth arall. Mae gofal iechyd cynhwysfawr yn golygu bod gan rywun yr hawl i gael yr un driniaeth â rhywun sy'n preswylio fel arfer yn y DU.

## Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC)

**6.42** Gall EHIC neu Dystysgrif Newydd Dros Dro (PRC) ddilys ar gyfer yr EHIC ddangos bod ymwelydd (gan gynnwys myfyriwr) wedi'i eithrio rhag ffioedd o dan y Protocol SSC neu Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, felly mae ganddo'r hawl i wasanaethau perthnasol sy'n angenrheidiol yn feddygol yn ystod ei ymweliad tan ei dyddiad dychwelyd arfaethedig. Y rheswm am hyn yw bod y wlad arall yn gyfrifol am gostau gofal iechyd yr ymwelydd. Gall y DU adennill y gost o ddarparu triniaeth i'r claf, os cofnodir manylion yr EHIC neu'r PRC.

**6.43** Er mwyn i'r DU wneud hawliad i'r wlad berthnasol am y gost o drin eu preswylwyr, mae'n hanfodol bod y data o EHIC/PRC ddilys yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor yn NHSBSA drwy'r porth Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor (OHS) y gellir cael mynediad ato yn **www.services.nhsbsa.nhs.uk/ovt/Pages/**

Heb y data hyn, ni all y DU wneud cais am ad-daliad ac mae mewn gwirionedd yn cymorthdalu costau gofal iechyd gwledydd eraill.

**6.44** Mae trefniant rhwng y DU ac Iwerddon yn golygu nad oes rhaid i ymwelwyr o Iwerddon gyflwyno EHIC i gael gwasanaethau perthnasol yn ddi-dâl o dan Reoliadau'r UE. Nid oes ond angen iddynt gyflwyno tystiolaeth eu bod yn preswylio yn Iwerddon, er y gall EHIC dilys gael ei ddefnyddio hefyd fel tystiolaeth o hyn. Mae angen cyfeirio ymwelwyr o Iwerddon gydag S2 ar gyfer triniaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw.

**6.45** Yn yr un modd, mae trefniant rhwng y DU a Norwy yn golygu y gall gwladolion Norwy a'r DU sy'n preswylio yn Norwy neu sydd wedi'u hyswirio yn Norwy gyflwyno pasbort Norwy dilys er mwyn cael mynediad at driniaeth anghenion sy'n codi wrth ymweld â'r DU.

**6.46** Rhaid codi ffioedd am wasanaethau perthnasol ar ymwelwyr sy'n preswylio yn un o wledydd yr UE neu yn y Swistir nad ydynt yn darparu EHIC/PRC (neu ddogfen gyfatebol benodedig ar gyfer Iwerddon a Norwy) ac ymwelwyr y codir ffioedd arnynt o wledydd EFTA ar dariff y BILl, oni bai bod eithriad arall yn berthnasol iddynt o dan y Rheoliadau Ffioedd.

**6.47** Gall person y codwyd ffioedd arno am nad oedd wedi darparu EHIC/PRC fod â hawl i gael ad-daliad gan ei wladwriaeth gartref ar ôl iddo ddychwelyd. Fel arall, os yw'n darparu EHIC/PRC ddilys sy'n cwmpasu cyfnod y driniaeth o fewn amserlen resymol ar ôl triniaeth, dylai'r corff perthnasol ei ad-dalu.

**6.48** Gall ymwelwyr o wledydd yr UE neu EFTA gael eu heithrio o dan gategori eithrio gwahanol o fewn y Rheoliadau Ffioedd ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried cyn codi ffioedd ar y claf. Mae gan rai gwladolion yr UE/EFTA yn ogystal â rhai gwladolion trydedd wlad nad ydynt yn destun rheolaeth fewnfudo sy'n preswylio fel arfer yn y DU yr hawl i gael triniaeth am ddim ar y sail honno.

**6.49** Fodd bynnag, os gall ymwelydd ddangos EHIC neu PRC ddilys o un o wledydd yr UE neu'r Swistir, gall y DU adhawlio cost eu triniaeth gan y wlad honno. Mae'n bosibl bod yn preswylio fel arfer yn y DU a pharhau i gael eich yswirio gan wlad arall, er enghraifft, o dan drefniadau S1. O ganlyniad, os bydd claf o wlad yn yr UE yn cyflwyno ar gyfer triniaeth a bod y BILl sy'n rhoi'r driniaeth yn credu ei fod yn preswylio fel arfer yn y DU ond nad yw wedi gweld digon o dystiolaeth o hyn, dylai'r darparwr ofyn i'r claf o hyd a oes ganddo EHIC/PRC a chofnodi ei fanylion drwy borth gwe OHS.

## Pa driniaeth sy'n rhad ac am ddim o dan yr EHIC?

**6.50** Mae gan berson sydd ag EHIC/PRC ddilys (neu basbort yn achos ymwelwyr o Norwy) yr hawl i gael triniaeth am ddim ar gyfer pob triniaeth sy'n angenrheidiol yn feddygol cyn ei ddyddiad dychwelyd arfaethedig, ac eithrio pan fo ffioedd hefyd yn berthnasol i breswylwyr yng Nghymru, megis ffioedd deintyddol. Mewn geiriau eraill, mae hyn yn golygu triniaeth y mae'n angenrheidiol yn feddygol ei ddarparu i ymwelydd yn ystod ei arhosiad dros dro yn y DU, gyda'r bwriad o'i atal rhag gorfod gadael y DU i gael triniaeth cyn diwedd ei arhosiad arfaethedig. Nid oes angen i'r claf fod â dyddiad gadael neu hyd arhosiad penodol, cyn belled â bod yr arhosiad yn un dros dro.

Mae hyn yn golygu bod y canlynol yn cael eu cwmpasu:

- diagnosis o symptomau neu arwyddion sy'n digwydd am y tro cyntaf ar ôl i'r ymwelydd gyrraedd y DU
- unrhyw driniaeth arall sydd, ym marn ymarferydd meddygol neu ddeintyddol cofrestredig, ei angen yn brydlon ar gyfer cyflwr:

- a gododd ar ôl i'r ymwelydd gyrraedd; neu
- a waethygodd yn ddifrifol ar ôl iddo gyrraedd; neu
- a fyddai'n debygol o waethygu'n ddifrifol heb driniaeth; a

- thrin cyflyrau cronig neu gyflyrau sy'n bodoli eisoes.

**6.51** Dylid nodi bod y diffiniad uchod o 'driniaeth sy'n angenrheidiol yn feddygol' yn wahanol i'r hawl i gael triniaeth am ddim sy'n berthnasol i ymwelwyr o wledydd y tu allan i'r UE sydd â chytundeb cilyddol nad ydynt yn dod o dan Brotocol SSC y DU-UE neu Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir.

**6.52** Mae arhosiad dros dro yn gyfnod pan fo rhywun yn aros mewn man heblaw'r man lle mae'n byw fel arfer, ac nid yw'n symud ei breswylfa arferol yno. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i gyfnod penodol o amser a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos. At ddibenion Protocol SSC y DU-UE a Chonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, rhagdybir mai preswylfa arferol myfyrwyr sydd wedi'u hyswirio gan yr UE a'r Swistir fydd eu mamwlad o hyd gydol eu hastudiaethau.

**6.53** Gall pobl sydd wedi'u hyswirio gan yr UE a'r Swistir ac sy'n deithwyr neu'n aelodau o'r criw ar gwch neu awyren sy'n teithio i'r DU ddefnyddio eu EHIC yn y DU i gael triniaeth a ddaeth yn angenrheidiol yn feddygol yn ystod y daith.

**6.54** Yn achos gwasanaethau mamolaeth, mae'r EHIC yn cwmpasu pob elfen o ofal mamolaeth, gan gynnwys gofal cynenedigol ac ôl-enedigol, ar yr amod nad rhoi genedigaeth neu dderbyn triniaeth mamolaeth oedd y rheswm dros ymweliad y fenyw. Yn yr achos hwn, dylai'r claf gyflwyno ffurflen mamolaeth S2 i'r corff perthnasol. Fodd bynnag, o ystyried nad yw holl wledydd yr UE yn dyroddi S2 ar gyfer gofal mamolaeth yn awtomatig, gellir defnyddio disgresiwn os cyflwynir EHIC dilys yn lle'r S2. Os na chyflwynir dogfen hawl ddilys, bydd angen i'r claf dalu (oni bai bod eithriad gwahanol yn berthnasol).

**6.55** Mae cleifion ag EHICs dilys yn gymwys i gael triniaeth dialysis am ddim, ar yr amod bod y claf yn trefnu'r driniaeth ymlaen llaw a bod cyfleusterau ar gael ar yr adeg dan sylw. Mae gwasanaethau ocsigen yn y cartref yn cael eu cynnwys o dan yr EHIC hefyd. Unwaith eto, dylai cleifion wneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer darpariaeth, gyda meddygfa deulu fel rheol, a dylent sicrhau bod ganddynt ddigon o ocsigen i deithio i ben eu taith yn y DU ac ar gyfer y daith adref. Rhaid trefnu ocsigen ar gyfer taith yn breifat ac nid yw'n cael ei gwmpasu gan y trefniadau a ariennir gan y wladwriaeth a ddisgrifir uchod. Gall y triniaethau y mae angen eu harchebu ymlaen llaw newid yn y dyfodol.

## Beth am weithwyr o'r UE neu'r Swistir a anfonir i weithio yn y DU?

**6.56** Gelwir y rhai a anfonir i weithio yn y DU am amser cyfyngedig gan eu cyflogwr o wlad yn yr UE, neu i'r gwrthwyneb (yn hytrach na'r rhai sydd wedi dewis symud i wlad arall i weithio neu i chwilio am waith) yn 'weithwyr datgysylltiedig'. Dylai gweithwyr datgysylltiedig sydd wedi'u hyswirio gan Aelod-wladwriaeth yr UE neu'r Swistir sydd ar arhosiad dros dro yn y DU ddangos EHIC ac, yn ddelfrydol, ddogfen A1 yr UE. Dylid cofnodi manylion yr EHIC ar y porth. Dylai gweithwyr datgysylltiedig sy'n preswylio yn y DU gael eu cwmpasu gan ddogfen S1 a gallant fod yn gymwys i gael ad-daliad llawn neu rannol o'u taliad gordal iechyd. Mae holl Aelod-wladwriaethau'r UE wedi optio i mewn i'r darpariaethau gweithwyr datgysylltiedig ym Mhrotocol SSC y DU-UE, felly mae hyn yn berthnasol i holl Aelod-wladwriaethau'r UE ac i'r Swistir, nad oedd angen optio i mewn.

## Beth am weithwyr o'r DU a anfonir i weithio mewn mannau eraill yn yr UE?

**6.57** Gall gweithwyr o'r DU a anfonir i weithio yn un o wledydd yr UE neu yn y Swistir am amser cyfyngedig gan eu cyflogwr gael ffurflen A1 (i'w defnyddio ochr yn ochr ag EHIC/GHIC) neu S1 gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) i'w defnyddio dramor, lle mae'r aelod-wladwriaeth berthnasol wedi cytuno i'r trefniant hwn. Mae hyn yn rhoi'r hawl iddynt dderbyn gwasanaethau perthnasol am ddim wrth ymweld â Chymru, yn union fel rhywun sy'n preswylio yma fel arfer. Gall aelodau teulu gweithwyr datgysylltiedig yn y DU, hyd yn oed os ydynt yn byw mewn mannau eraill yn yr UE, hefyd fod â ffurflen S1 a roddwyd gan y DU wedi'i chofrestru dramor, felly bydd ganddynt yr hawl i gael gofal iechyd yn y DU fel pe baent yn preswylio yma fel arfer.

## Beth am aelodau o'r teulu sy'n byw mewn gwlad nad yw'n rhan o'r UE?

**6.58** Dylid trin aelodau o deulu uniongyrchol gwladolyn yr UE, neu wladolyn EFTA sydd wedi arfer eu hawliau cytuniad yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 (er enghraifft, drwy symud o dramor i weithio yng Nghymru), fel pe baent yn preswylio fel arfer yn y DU. Os ydynt yn dymuno aros yn y DU, bydd angen iddynt wneud cais am statws o dan yr EUSS. Mae aelodau o deulu uniongyrchol yn cynnwys priod/partner sifil a phlant. Byddai rhiant neu nain neu daid sy'n ddibynnydd y priod/partner sifil hefyd yn gymwys (oni bai bod ganddynt hawl yn eu rhinwedd eu hunain). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nogfen esbonio'r Cytundeb Ymadael ar gyfer rhan 2: hawliau dinasyddion FCDO.

Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU amddiffyniad dros dro ar gyfer aelodau'r teulu am dri mis ar ôl iddynt gyrraedd y DU i ymuno â'u perthynas, hyd yn oed os nad ydynt wedi gwneud cais i'r EUSS eto. Bydd angen iddynt wneud cais i'r EUSS o fewn tri mis i gyrraedd er mwyn parhau i dderbyn gofal iechyd am ddim. Bydd ganddynt hawl o hyd i gael gofal iechyd am ddim, yn amodol ar y prawf preswylio fel arfer, hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar eu cais.

## Beth am aelodau o'r teulu sy'n byw yn un o wledydd yr UE?

**6.59** Gall aelodau o deulu uniongyrchol gwladolyn yr UE neu wladolyn EFTA sydd wedi arfer eu hawliau cytuniad yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 (er enghraifft, drwy symud o dramor i weithio yn y DU) fod yn gymwys i ffurflen S1 a roddwyd gan y DU gael ei chofrestru yn eu gwlad breswyl. Mae aelodau o deulu uniongyrchol yn cynnwys priod/partner sifil a phlant. Byddai rhiant neu nain neu daid sy'n ddibynnol ar y priod/partner sifil yn gymwys hefyd (oni bai bod ganddynt hawl yn eu rhinwedd eu hunain). Os oes ganddynt ffurflen S1 gofrestredig dramor, byddant yn gymwys i ddychwelyd i'r DU i gael triniaeth fel pe baent yn preswylio fel arfer yn y DU, ac eithrio os ydynt yn aelodau o deulu gweithiwr trawsffiniol, na fyddent ond â hawl i gael gofal iechyd heb ei gynllunio ar yr un sail â phe bai ganddynt EHIC. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Cytundeb Masnach a Chydweithio rhwng y DU a'r UE – CP 426 a CP 530 – Confensiwn Cydgysylltu Nawdd Cymdeithasol rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chydffederasiwn y Swistir (publishing.service.gov.uk).

## Beth am fyfyrwyr o'r UE a'r Swistir?

**6.60** Yn gyffredinol, mae myfyrwyr sydd wedi'u hyswirio yn un o wledydd yr UE neu yn y Swistir yn parhau i fod wedi'u hyswirio yn eu gwladwriaeth gartref tra'u bod yn astudio dros dro yn y DU. At ddibenion Protocol SSC y DU-UE a Chonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, rhagdybir mai preswylfa arferol myfyrwyr o'r UE a'r Swistir sydd yn y DU i ddilyn cwrs astudio llawn amser fydd eu mamwlad o hyd gydol eu hastudiaethau.

**6.61** Dylai myfyrwyr y dechreuodd eu cwrs astudio yn y DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 ac a gwmpesir gan y Cytundeb Ymadael gyflwyno EHIC/PRC ddilys, a dylid adrodd am unrhyw gostau triniaeth y codir ffi amdani fel arall drwy'r porth OHS. Os na allant ddarparu EHIC/PRC ddilys, bydd angen i OVM ystyried a ydynt yn preswylio fel arfer ac felly na ddylid codi ffioedd arnynt.

**6.62** Gall myfyrwyr fod yma am sawl blwyddyn cyn gadael y DU, felly mae'n debygol y bydd angen mwy o driniaethau arnynt nag y byddai eu hangen ar rywun ar wyliau. Bydd eu EHIC yn dal i'w galluogi i gael pob triniaeth y mae'n angenrheidiol yn feddygol ei darparu iddynt yn ystod eu harhosiad dros dro (ond hir) yn y DU.

**6.63** Bydd myfyrwyr sy'n dod o wledydd yr UE neu EFTA i'r DU i astudio (ar gyfer cyrsiau sy'n para mwy na chwe mis) y mae eu fisa myfyriwr yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021 yn talu'r gordal iechyd fel rhan o'u cais am fisa myfyriwr.

**6.64** Efallai y bydd gan fyfyrwyr o'r UE neu'r Swistir yr hawl i gael ad-daliad llawn neu rannol o'u gordal iechyd o dan Brotocol SSC y DU-UE neu Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, os ydynt yn fyfyrwyr llawn amser mewn addysg uwch, nad ydynt yn gweithio tra'u bod yn y DU a bod ganddynt EHIC a gyhoeddwyd gan wlad yn yr UE neu'r Swistir. Agorodd ceisiadau am ad-daliadau myfyrwyr ym mis Ionawr 2022; dylai'r rhai sy'n bwriadu gwneud cais gyflwyno eu EHIC neu eu PRC wrth gael gofal iechyd ar gyfer anghenion sy'n codi. Bydd gan y rhai sy'n cael ad-daliad hawl i ofal iechyd ar gyfer anghenion sy'n codi yn unig am y cyfnod y mae'r ad-daliad yn ymwneud ag ef, ar ôl cyflwyno EHIC neu PRC neu S2 dilys i gael mynediad at driniaeth wedi'i chynllunio am ddim oni bai bod eithriad arall yn rheoliadau Codi Tâl Cymru yn gymwys. Efallai y bydd gan rai myfyrwyr hefyd dystysgrif S1 sy'n rhoi'r hawl i'r deiliad gael gofal iechyd am ddim yn y DU y elir amdano gan y wlad sy'n rhoi'r dystysgrif. Dylai OVM roi gwybod y manylion EHIC drwy borth OHS.

**6.65** Ni fydd myfyrwyr o wlad yn yr UE neu'r Swistir y mae eu cwrs astudio yn para llai na chwe mis yn talu'r gordal iechyd a gallant barhau i ddefnyddio eu EHIC neu gyflwyno S2 ar gyfer triniaeth a gynlluniwyd yn ystod eu hastudiaethau.

## Beth am ddod i Gymru ar gyfer triniaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw?

**6.66** Gall pobl o wlad yn yr UE neu'r Swistir dderbyn gofal iechyd wedi'i gynllunio yng Nghymru lle maent yn bodloni'r gofynion perthnasol o dan:

- y llwybr triniaeth wedi'i chynllunio o dan y Protocol SSC, ar gyfer preswylwyr yr UE
- y llwybr triniaeth wedi'i chynllunio o dan Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, ar gyfer preswylwyr cymwys y Swistir
- Llwybr S2 o dan y Cytundeb Ymadael.

Efallai y bydd deiliaid ffurflen S1 a roddwyd gan y DU a gofrestrwyd gyda'r awdurdodau perthnasol mewn gwlad yr UE neu EFTA ac a oedd yn byw yn y wlad honno ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 hefyd yn gallu dychwelyd i Gymru a chael gofal iechyd wedi'i gynllunio.

**6.67** Mae'r llwybrau hyn yn ymwneud â thriniaeth a ddarperir gan y wladwriaeth yn unig, ac ymdrinnir â chostau'n uniongyrchol rhwng gwladwriaethau. Mae'r ffurflen S2 yn gweithredu fel math o warant talu. Mae hyn yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, nad yw'n ofynnol i'r claf dalu unrhyw beth ei hun (ac eithrio unrhyw ffi statudol berthnasol a fyddai hefyd yn daladwy gan y rhai sy'n preswylio fel arfer).

**6.68** Daeth y Gyfarwyddeb Gofal Iechyd Trawsffiniol i ben yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac eithrio ar gyfer achosion trosiannol a oedd ar y gweill ar 31 Rhagfyr 2020.

**6.69** Mae'r llwybr triniaeth wedi'i chynllunio o dan Brotocol SSC y DU-UE a llwybr S2 o dan y Cytundeb Ymadael yn galluogi pobl o wlad yn yr UE neu EFTA sydd am ddod i'r DU yn benodol i geisio triniaeth i wneud hynny, lle maent yn bodloni'r gofynion perthnasol. Bydd angen i'r cleifion hyn gael caniatâd ymlaen llaw gan eu sefydliad nawdd cymdeithasol, sy'n ysgwyddo'r gost, sy'n golygu na ddylid codi ffi ar y claf am y driniaeth honno.

**6.70** Pan roddir awdurdodiad, bydd yr unigolyn yn cael S2. Rhaid iddo wneud trefniadau ymlaen llaw gyda darparwr y driniaeth ar gyfer ei driniaeth a chael yr un flaenoriaeth glinigol â chleifion y GIG. Mae hyn yn golygu os oes rhestr aros y GIG, mae'n rhaid iddo aros ei dro.

**6.71** Bydd cleifion a atgyfeirir o dan drefniadau triniaeth wedi'i chynllunio yn parhau i allu cael yr holl driniaeth sy'n angenrheidiol yn feddygol ar gyfer unrhyw gyflyrau eraill os ydynt yn dangos EHIC/PRC ddilys.

**6.72** Er mwyn osgoi'r cymhlethdodau a allai ddigwydd os caiff claf sydd wedi'i awdurdodi i geisio triniaeth y GIG yn y DU ei drin yn breifat yn anfwriadol, cynghorir ysbytai a meddygon ymgynghorol i bennu, wrth dderbyn atgyfeiriadau o'r fath, a ddylai cost y driniaeth gael ei thalu gan awdurdod tramor perthnasol y claf neu'r claf ei hun, ac a yw'n dymuno bod yn glaf y GIG neu'n glaf preifat y gellir codi ffioedd arno.

**6.73** Os yw ysbyty wedi cytuno i dderbyn claf o dan y trefniadau hyn ond, ar ôl cyrraedd, na all y claf gyflwyno'r ffurflen briodol, dim ond triniaeth o dan y diffiniad 'pob triniaeth sy'n angenrheidiol yn feddygol' y dylid ei darparu'n ddi-dâl (gan ragdybio y gall ddangos ei EHIC neu ei PRC). Gall y claf dalu ymlaen llaw am y driniaeth wedi'i chynllunio a dylid codi ffi arno ar gost tariff y BILl am y driniaeth. Efallai y bydd y claf yn gallu hawlio ad-daliad am y gost hon gan ei wladwriaeth breswyl. Os derbynnir y ffurflen berthnasol wedyn, dylid ad-dalu'r ffi. Os nad yw'r ffurflen wedi'i derbyn erbyn i'r claf gael ei ryddhau o'r ysbyty, dylid dweud wrtho am godi'r mater gyda'i sefydliad nawdd cymdeithasol.

**6.74** Er bod Malta yn wlad yn yr UE a bod trefniadau TCA/SSC yn gymwys, o dan drefniadau arbennig gyda Malta, mae amryw o gleifion a atgyfeirir o Malta yn cael eu trin yn rhad ac am ddim, yn unol â chwota caeth sy'n cael ei fonitro gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae trefniadau'n bodoli lle caiff ysbytai eu hysbysu ymlaen llaw fod cleifion wedi'u hawdurdodi i ddod o dan y trefniadau hyn. Mae Uchel Gomisiwn Malta yn Llundain yn dyrannu niferoedd cwota i gleifion a atgyfeirir i'r DU. Pan fydd y cwota ar ben, gall awdurdodau iechyd Malta atgyfeirio rhagor o gleifion i'r DU, ond dylid codi ffi, ar sail cost tariff y Bwrdd Iechyd, ar y cleifion hyn am eu triniaeth oni bai eu bod yn gallu darparu ffurflen S2 ddilys. Dylai rhif cwota Malta gael ei gofnodi a'i adrodd i'r tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor a NHSBSA.

## Adennill costau triniaeth o dan lwybrau EHIC ac S2

**6.75** Er mwyn i'r DU wneud hawliad i'r wlad berthnasol am y gost o drin eu preswylwyr, mae'n hanfodol bod y data o EHIC/PRC/S2 ddilys yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor yn NHSBSA. Heb y data hyn, ni all y DU wneud cais am ad-daliad ac mae i bob pwrpas yn cymorthdalu costau gofal iechyd gwledydd eraill.

**6.76** Dylai'r holl driniaeth a gyflawnir pryd bynnag y cyflwynir EHIC/PRC/S2 ddilys, gan gynnwys gwasanaethau 'wedi'u heithrio' megis triniaeth mewn adran damweiniau ac achosion brys, ac yn cynnwys pan allai'r person ag EHIC fod wedi'i eithrio mewn ffordd arall, gael ei chofnodi gan ddefnyddio'r porth OHS, sydd ar gael yn **www.services.nhsbsa.nhs.uk/ovt/Pages/**

**6.77** Ar gyfer cleifion o'r UE neu'r Swistir sy'n dod o dan Brotocol SSC y DU-UE neu Gonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, dylai cost lawn y driniaeth gael ei chyfrifo ar sail tariff BILl a'i hadennill.

**6.78** Dylai cyrff perthnasol nodi nad yw cofnodi ac adrodd ar y data hyn fel y gall y DU hawlio ad-daliad gan y wlad briodol yn golygu nad oes rhaid i BILlau anfonebu'r comisiynydd priodol. Os na chaiff y comisiynydd hwn ei anfonebu, ni fydd y corff perthnasol yn cael ei dalu am drin y claf.

**6.79** I gael cyngor ar sut i weithredu'r porth gwe/cyflwyno data, cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor NHSBSA. E-bost: **nhsbsa.ovmqueries@nhs.net**

## Pobl sy'n preswylio yn un o wledydd yr UE y mae talu eu costau gofal iechyd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r DU

**6.80** O dan y Cytundeb Ymadael a Phrotocol SSC y DU-UE a Chonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, gall rhai pobl sy'n preswylio yn un o wledydd yr UE neu yn y Swistir (er enghraifft, gweithwyr trawsffiniol, rhai gweithwyr datgysylltiedig a phensiynwyr) gael eu costau gofal iechyd wedi'u talu gan y DU gan mai'r DU yw'r 'wlad gymwys' ar eu cyfer ac felly'n gyfrifol am eu costau gofal iechyd. Dylai'r bobl hyn fod ag S1 ddilys a roddwyd gan y DU sydd wedi'i chofrestru yn eu gwlad breswyl yn yr UE neu yn y Swistir (ac eithrio rhai gweithwyr datgysylltiedig ar leoliadau gwaith tymor byr, a fydd â ffurflen A1 y DU ac EHIC/GHIC y DU). Mae angen i OVM fod yn ymwybodol y bydd adegau pan fydd ymwelwyr o'r UE neu'r Swistir yn dod o fewn y categori hwn. Gweler hefyd baragraff 6.80 isod.

**6.81** Ac eithrio pensiynwyr y wladwriaeth yn y DU ac aelodau teulu gweithwyr trawsffiniol (gweler y paragraffau isod), mae gan bobl yn y categori hwn yr hawl i beidio â gorfod talu am driniaeth wedi'i chynllunio a heb ei chynllunio, ac eithrio lle byddai ffioedd hefyd yn berthnasol i breswylwyr y DU, er enghraifft, ffioedd deintyddol. Bydd angen iddynt ddangos tystiolaeth o'u hawl ac efallai y bydd rhaid iddynt wneud trefniadau cyn cael mynediad at ofal.

## Aelodau teulu gweithwyr trawsffiniol

**6.82** Fel y nodir uchod, nid oes gan aelodau o deulu gweithwyr trawsffiniol yr hawl i gael gwasanaethau perthnasol ar yr un sail â phobl sy'n preswylio fel arfer yn y DU (oni bai bod ganddynt hawliau yn eu rhinwedd eu hunain). Mae gweithwyr trawsffiniol yn bobl sy'n preswylio mewn un wlad yn yr UE neu yn y Swistir ond sy'n gweithio yn y DU, sy'n dychwelyd i'w gwlad breswyl o leiaf unwaith yr wythnos ac sydd ag S1 y DU ddilys a gofrestrwyd yn eu gwlad breswyl. Er bod gan weithwyr trawsffiniol yr hawl i gael gwasanaethau perthnasol yn rhad ac am ddim, fel yr esboniwyd yn y paragraff uchod, nid yw aelodau o'u teulu, sydd hefyd yn preswylio yn y wlad arall yn yr UE neu yn y Swistir ac sydd ag S1 y DU, ond yn gallu cael triniaeth am ddim os bydd y driniaeth honno'n dod yn angenrheidiol yn feddygol yn ystod ymweliad dros dro â Chymru. Fodd bynnag, bydd angen iddynt dalu unrhyw ffioedd sydd hefyd yn berthnasol i breswylwyr yng Nghymru, megis ffioedd deintyddol. Nid oes angen iddynt ddangos EHIC ar gyfer hyn, ond efallai y gofynnir iddynt ddangos copi o'u S1; fel arall, dylai OVM gysylltu â Thîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor NHSBSA i gadarnhau statws eu S1.

## Pensiynwyr y DU sy'n byw yn un o wledydd yr UE neu EFTA

**6.83** Mae rheoliad 4C o'r Rheoliadau Ffioedd yn parhau â'r hawliau i gael triniaeth am ddim i bensiynwyr y DU sy'n byw yn yr UE ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020, y mae eu costau gofal iechyd yn eu gwlad breswyl yn yr UE/EFTA yn cael eu hariannu gan y DU oherwydd ffurflen S1 gofrestredig a roddwyd gan y DU. Nid yw hyn yn rhan o Brotocol SSC y DU-UE na Chonfensiwn SSC y DU a'r Swistir, ond mae'r hawliau hyn yn golygu na ddylid codi ffi arnynt am ofal iechyd mewn lleoliadau gofal iechyd eilaidd yng Nghymru. Mae'r rheol hon hefyd yn berthnasol i'w priod, eu partner sifil neu eu plentyn sydd hefyd yn meddu ar S1 a roddwyd gan y DU. Fodd bynnag, bydd angen iddynt dalu unrhyw ffioedd sydd hefyd yn berthnasol i breswylwyr y DU yn eu gwlad breswyl yn y DU e.e. ffioedd deintyddol. Dylid gofyn i unigolion sydd wedi cofrestru S1 y DU yn un o wledydd yr UE/EFTA ddarparu rhywfaint o dystiolaeth yn cadarnhau hyn — copi o'u S1 y DU yn ddelfrydol. Ni ddylid derbyn EHIC/GHIC y DU fel prawf o hawl o dan y Rheoliad hwn.

**6.84** Fodd bynnag, ni fydd gan wladolion y DU sydd wedi symud i'r UE ar ôl 1 Ionawr 2021 neu a symudodd i'r Swistir ar ôl 1 Tachwedd 2021 ac sydd ag S1 y DU, neu a fydd yn dod yn gymwys i feddu ar un, yr hawl i gael gwasanaethau perthnasol yng Nghymru, yn ddi-dâl, gan nad yw'r DU wedi dewis hyn o dan y Protocol SSC ac nad ydynt yn dod o dan Reoliad 4C o'r Rheoliadau Ffioedd. Rhaid codi ffioedd arnynt fel ymwelydd tramor wrth ymweld â'r DU dros dro, oni bai bod eithriad arall yn berthnasol.

## Rhwymedigaethau ar OVM i gadarnhau hawl S1 neu A1

**6.85** TEr mwyn cadarnhau'r hawl i gael triniaeth ac i statws dim codi ffi, dylai OVM, yn y lle cyntaf, ofyn i'r claf gyflwyno copi o'i ffurflen gofal iechyd a roddwyd gan y DU (S1 neu A1). Bydd angen i OVM wirio a oes 'dyddiad gorffen' ar y ffurflen gan fod rhai ffurflenni S1 â chyfyngiad amser ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr hawl i wasanaethau perthnasol yn ddi-dâl â dilysrwydd y ffurflen S1. Os oes gan OVM unrhyw gwestiynau am ffurflen S1, gall gysylltu â Thîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor NHSBSA i wneud ymholiadau pellach am statws cofrestru'r ffurflen. Os na all OVM gadarnhau statws y claf, ac nad yw'r claf yn preswylio yma fel arfer, nac wedi'i eithrio o dan gategori arall o dan y Rheoliadau Ffioedd, gall y claf fod yn atebol am ei gostau gofal iechyd. Fodd bynnag, os yw'r claf yn gallu cyflwyno ei ffurflen ddilys o fewn cyfnod rhesymol o amser, dylai'r BILl ystyried ad-dalu'r claf am gostau a dalwyd ganddo.

**6.86** Gall OVM wirio a oes gan glaf ffurflen S1 gofrestredig yn un o wledydd yr UE neu yn y Swistir drwy gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor yn **nhsbsa.ovmqueries@nhs.net**

**6.87** Gan nad oes proses awdurdodi ymlaen llaw (yn wahanol i S2) ac nad yw'r claf yn talu wrth ddychwelyd i Gymru gyda ffurflen S1, gall BILlau ofyn i'r claf gael atgyfeiriad gan feddyg teulu er mwyn pennu'r hawl i gael triniaeth, os nad yw'n glir a fyddai gan glaf yr hawl i gael y driniaeth y mae am ei chael pe bai'n byw'n lleol. Fodd bynnag, os yw'n glir y byddai gan y claf yr hawl i gael y driniaeth yn lleol, ni ddylid defnyddio atgyfeiriad meddyg teulu i gwestiynu asesiad meddygol clinigydd dramor. Gall ffurflen S2 a roddwyd gan y sefydliad perthnasol gael ei derbyn hefyd yn hytrach na chopi o ffurflen S1.

**6.88** Ar lefel weithdrefnol, mater i BILlau unigol yw sut i dderbyn cleifion, a gall prosesau amrywio rhwng BILlau.

## Pryd y dyroddir S2 gan y DU ar gyfer pobl sy'n byw yn un o wledydd yr UE

**6.89** Mae'r DU (Tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor NHSBSA) yn gyfrifol hefyd am ddyroddi'r S2 ar gyfer triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw yn un o wledydd yr UE ar gyfer deiliaid ffurflen S1 y DU pan fo'r person hwnnw'n byw yn:

- Awstria
- Bwlgaria
- Croatia
- Denmarc
- Estonia
- Ffrainc
- Gwlad Belg
- Gwlad Groeg
- Gwlad Pwyl
- Hwngari
- Latfia
- Lithwania
- Rwmania
- Slofacia
- Slofenia
- Yr Almaen
- Y Weriniaeth Tsiec

**6.90** Bydd gweddill gwledydd yr UE a'r Swistir yn parhau i roi'r S2 i'r rhai sy'n byw yno sydd wedi cofrestru S1 a roddwyd gan y DU yn y wlad honno.

## Hawliau a gwybodaeth cleifion

**6.91** Os bydd ymwelwyr o'r UE yn gofyn am wybodaeth am gael mynediad at ofal iechyd yn y DU, gellir eu cyfeirio at y wefan ganlynol: **www.111.wales.nhs.uk/Travelhealth/**

## Materion Ewropeaidd eraill

**6.92** Dylid nodi:

a. at ddibenion Protocol SSC y DU-UE:

- mae Ffrainc yn cynnwys departments tramor Guadeloupe, Martinique, Guyane (Guiana Ffrengig) a Réunion
- mae Sbaen yn cynnwys Ynysoedd Baleares, Yr Ynysoedd Dedwydd, Ceuta a Melilla
- mae Portiwgal yn cynnwys yr Azores a Madeira.

b. Mae tiriogaeth Denmarc yn eithrio Ynysoedd Ffaro. Mae cytundeb gofal iechyd cilyddol rhwng Teyrnas Denmarc a'r DU yn caniatáu i breswylwyr Ynysoedd Ffaro sy'n wladolion Denmarc gael triniaeth anghenion sy'n codi ar y GIG yn y DU.

c. Mae cytundeb gofal iechyd cilyddol ar wahân rhwng y DU a Norwy yn caniatáu i wladolion Norwy a gwladolion y DU sy'n byw yn Norwy gael triniaeth anghenion sy'n codi ar y GIG yn y DU pan fyddant yn cyflwyno pasbort dilys. Mae hyn hefyd yn berthnasol i wladolion Norwy a anfonir i weithio yn y DU.

d. Nid yw Andorra, Monaco, San Marino a Dinas y Fatican yn rhan o'r UE na'r AEE.

e. Mae cyfraith yr UE wedi'i hatal yng ngogledd Cyprus. Dim ond yng ngweddill Cyprus y mae'n berthnasol. Felly, nid yw ymwelwyr o ogledd Cyprus yn cael eu cwmpasu gan y Protocol SSC na'r Cytundeb Ymadael. Dylai ymwelwyr sy'n preswylio fel arfer yng ngogledd Cyprus ac y gellir codi ffioedd arnynt yn uniongyrchol yn y pwynt defnyddio am wasanaethau perthnasol orfod talu ffioedd ar yr un sail ag unrhyw ymwelydd arall y gellir codi ffioedd arno.

f. Nid yw canolfannau sofran y DU yng Nghyprus yn cyfrif fel rhan o'r DU yn y cyd-destun hwn, nac fel rhan o'r UE

g. At ddibenion gofal iechyd, mae'r berthynas rhwng y DU a Gibraltar yn cael ei llywodraethu gan gytundeb gofal iechyd dwyochrog (Pennod 7).

h. Er nad ydynt wedi'u cynnwys o dan y Cytundeb Ymadael na'r Protocol SSC, mae gan Bosnia a Herzegovina, Kosovo, Gogledd Macedonia, Montenegro a Serbia gytundebau cilyddol gyda'r DU (gweler Atodlen 2 o'r Rheoliadau Ffioedd a Phennod 7).

PENNOD 7

# Cytundebau gofal iechyd cilyddol a rhwymedigaethau rhyngwladol eraill

## Cytundebau gofal iechyd cilyddol (Rheoliad 4 ac Atodlen 2)

**7.1** Mae gan y DU gytundebau gofal iechyd cilyddol gyda rhai gwledydd nad ydynt yn yr UE. Dylid trin ymwelwyr tramor sy'n gallu cyflwyno tystiolaeth eu bod yn wladolion, yn ddinasyddion neu'n breswylwyr cyfreithlon (fel y bo'n briodol) un o'r gwledydd hyn fel rhai sydd wedi'u heithrio rhag ffioedd mewn perthynas â thriniaeth y mae'r cytundeb perthnasol yn rhoi'r hawl iddynt ei chael.

**7.2** Tystiolaeth sydd ei hangen:

Prawf bod y person yn wladolyn/dinesydd/preswylydd (fel y bo'n briodol) y wlad a'i fod yn preswylio yn y wlad honno e.e. pasbort, trwydded breswylio, cerdyn adnabod, cerdyn nawdd cymdeithasol, bil cyfleustodau ac ati. Ar gyfer atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth ddewisol (gweler isod), cadarnhad gan y wlad berthnasol/NHSBSA y cytunwyd ar yr atgyfeiriad.

**7.3** O fewn y cytundebau cilyddol, mae amryw o amrywiadau yn lefel y driniaeth am ddim a roddir i ymwelwyr sy'n teithio i'r DU. Ar y cyfan, dim ond triniaeth feddygol ddybryd sydd i'w darparu am ddim, er mwyn caniatáu i'r ymwelydd tramor ddychwelyd adref ar gyfer anghenion eraill. Hefyd, nid yw'r cytundebau fel arfer yn gymwys pan fydd y person wedi teithio i'r DU er mwyn cael gofal iechyd. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn wir. Gweler y tabl isod am lefel y driniaeth am ddim fesul gwlad, ac amodau eraill sy'n berthnasol.

| Gwlad | Lefel y ddarpariaeth (gweler yr allwedd) | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Anguilla | 1* | Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. Gall hefyd atgyfeirio pedwar claf i'r DU am driniaeth ysbyty am ddim y GIG. |
| Awstralia | 1* | Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. |
| Bosnia a Herzegovina | 3 | Yn berthnasol i bob person sydd wedi'i yswirio yn y wlad honno. |
| Ynysoedd Prydeinig y Wyryf | 1* | Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. Gall hefyd atgyfeirio pedwar claf i'r DU am driniaeth ysbyty am ddim y GIG. |
| Ynysoedd Falkland | 4 | Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. Gall atgyfeirio nifer diderfyn o gleifion i'r DU am driniaeth ddewisol am ddim. |
| Ynysoedd Ffaro | 2 | Yn berthnasol i breswylwyr Ynysoedd Ffaro sy'n Wladolion Denmarc. |
| Gibraltar | 4 | Yn berthnasol i ddinasyddion sy'n preswylio yn y wlad honno yn unig pan na ddisgwylir i'r dinesydd hwnnw aros yn y DU am fwy na 30 diwrnod. Gall hefyd atgyfeirio nifer diderfyn o gleifion i'r DU am driniaeth ddewisol am ddim (gweler paragraff 7.5). |
| Ynys Manaw | 2 | Yn berthnasol i holl breswylwyr Ynys Manaw am gyfnod o arhosiad yn y DU nad yw'n fwy na thri mis, ac na ddisgwylir iddo fod yn fwy na thri mis. |
| Israel | 5 | Yn gymwys yn unig i'r rhai sydd â hawl i gael budd-daliadau mewn perthynas ag anaf diwydiannol o dan ddeddfwriaeth y naill wlad neu'r llall. |
| Jersey (Mae gan y DU gytundeb cilyddol gyda Jersey, ond nid gydag Ynysoedd eraill y Sianel.) | 2 | Yn berthnasol i holl breswylwyr Jersey am gyfnod o arhosiad yn y DU nad yw'n fwy na thri mis, ac na ddisgwylir iddo fod yn fwy na thri mis. |
| Kosovo | 3 | Yn berthnasol i bob person sydd wedi'i yswirio yn y wlad honno. |
| Montenegro | 3 | Yn berthnasol i bob person sydd wedi'i yswirio yn y wlad honno. |
| Montserrat | 1* | Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. Gall hefyd atgyfeirio pedwar claf y flwyddyn am driniaeth ysbyty am ddim y GIG. |

| Gwlad | Lefel y ddarpariaeth (gweler yr allwedd) | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Seland Newydd | 2 | Yn berthnasol i ddinasyddion sy'n preswylio yn y wlad honno yn unig. |
| Gogledd Macedonia | 3 | Yn berthnasol i bob person sydd wedi'i yswirio yn y wlad honno. |
| Norway | 1 | Yn berthnasol i ddinasyddion sy'n preswylio yn y wlad honno yn unig. |
| Serbia | 3 | Yn berthnasol i bob person sydd wedi'i yswirio yn y wlad honno. |
| St Helena | 1* | Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. Nid yw'n cynnwys Ynys Ascension na Tristan da Cunha. Gall hefyd atgyfeirio pedwar claf y flwyddyn am driniaeth ysbyty am ddim y GIG. |
| Y Swistir | 1 | Yn berthnasol i holl wladolion y Swistir. Mae hefyd yn cynnwys dibynyddion gwladolion y Swistir, waeth beth fo'u cenedligrwydd. |
| Ynysoedd Turks a Caicos | 1* | * Yn berthnasol i holl breswylwyr y wlad honno. Gall hefyd atgyfeirio pedwar claf y flwyddyn am driniaeth ysbyty am ddim y GIG. |

**Allwedd:**

1. Triniaeth feddygol ddybryd yn unig.
2. Dim ond triniaeth sydd ei hangen yn brydlon ar gyfer cyflwr a gododd ar ôl cyrraedd y DU neu a waethygodd yn ddifrifol (neu a fyddai wedi gwaethygu'n ddifrifol heb driniaeth) ar ôl cyrraedd y DU. Nid yw gwasanaethau megis monitro cyflyrau cronig/cyflyrau sy'n bodoli eisoes yn rheolaidd wedi'u cynnwys. Dylai triniaeth am ddim gael ei chyfyngu i driniaeth frys h.y. triniaeth na all aros hyd nes y gellir disgwyl yn rhesymol i'r claf adael y DU.
3. Pob triniaeth ar yr un sail ag ar gyfer person sydd wedi'i yswirio yn y wlad arall, gan gynnwys gwasanaethau megis monitro cyflyrau sy'n bodoli eisoes yn rheolaidd, ond heb gynnwys amgylchiadau lle mae person wedi teithio i'r wlad arall er mwyn cael gofal iechyd.
4. Pob triniaeth am ddim ar yr un telerau ag ar gyfer preswylydd cymwys y DU (preswylydd arferol), gan gynnwys triniaeth ddewisol.
5. Yn berthnasol mewn perthynas â rhai anafiadau diwydiannol yn unig.

Ar gyfer pob lefel o ddarpariaeth, cyfrifoldeb meddyg neu ddeintydd a gyflogir gan y corff perthnasol fydd darparu mewnbwn clinigol i weld a yw'r driniaeth ofynnol yn bodloni lefel benodol o ddarpariaeth.

* Ar gyfer y gwledydd hyn, bydd y cytundeb hefyd yn berthnasol i'r bobl hynny sydd angen triniaeth os ydynt yn aelod o'r criw, neu'n deithiwr, ar unrhyw long neu awyren sy'n teithio i'r DU, yn gadael y DU neu'n cael ei dargyfeirio i'r DU a bod yr angen am driniaeth frys wedi codi yn ystod y daith.

## Atgyfeiriadau ar gyfer gofal iechyd dewisol o dan y cytundebau

**7.4** Yn dibynnu ar delerau cytundeb gofal iechyd cilyddol y wlad benodol, mae'r eithriad hefyd yn berthnasol i'r rhai sydd wedi'u hatgyfeirio i'r DU yn benodol ar gyfer triniaeth y GIG. Fel arfer, dim ond pan nad oes gan y gwledydd gyfleusterau digonol i ddarparu'r driniaeth sydd ei hangen y gellir gwneud yr atgyfeiriadau.

**7.5** Comisiynir atgyfeiriadau o Gibraltar gan Gibraltar ei hun, ond ni ddylai BILlau filio Gibraltar am driniaeth a ddarperir i rywun a gyfeirir o Gibraltar o dan delerau'r cytundeb gofal iechyd cilyddol.

**7.6** Gall Tiriogaethau Tramor Prydeinig Anguilla, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, Montserrat, St Helena ac Ynysoedd Turks a Caicos atgyfeirio hyd at bedwar claf bob blwyddyn. O ran Ynysoedd Falkland, nid oes terfyn ar nifer yr atgyfeiriadau y gellir eu gwneud. Gwneir trefniadau atgyfeirio gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dylai pobl sy'n gobeithio cael eu hatgyfeirio gysylltu â'r Diriogaeth Dramor Brydeinig berthnasol yn y lle cyntaf.

**7.7** I bawb sy'n cael eu hatgyfeirio i gael triniaeth y GIG yn unol â pharagraffau 7.4 i 7.5 uchod, dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer eu derbyn a rhaid rhoi'r un flaenoriaeth i'r cleifion hyn â chleifion sy'n byw yn y DU.

**7.8** Daeth amryw o gytundebau gofal iechyd cilyddol i ben ar 31 Rhagfyr 2015 a daeth y cytundeb gyda Barbados i ben ar 30 Medi 2016. Dylai OVM gyfeirio at y Rheoliadau Ffioedd i benderfynu a yw eithriad yn berthnasol ar gyfer triniaeth barhaus a oedd, pan ddechreuodd y driniaeth, wedi'i heithrio o dan y cytundeb cilyddol ar neu cyn 31 Rhagfyr 2015 neu 30 Medi 2016 fel sy'n briodol.

PENNOD 8

# Adennill Costau

**8.1** Mae Canllawiau Rheoliadau Codi Tâl 2009 yn cyfeirio at hysbysu Llywodraeth Cymru pan ddarperir gwasanaethau'r GIG i ymwelwyr tramor o'r UE a'r rhai o wledydd eraill y mae gan Lywodraeth y DU gytundebau gofal iechyd cilyddol â hwy drwy ffurflen OVIS. Daeth y trefniant hwn (gan gynnwys y ffurflen OVIS) i ben yn 2018/19 gyda chyflwyno trefniant ariannu cylchol i Fyrddau Iechyd, yn seiliedig ar gyfartaledd yr hawliadau a wnaed yn ystod y cyfnod blaenorol o dair blynedd. Bydd hyn wedi cynnwys hawliadau a wnaed gan Fyrddau Iechyd lle comisiynwyd y triniaethau gan ddarparwr arall yng Nghymru. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddiwygio'r gwerth y cyllid cylchol hwn.

**8.2** Dyma'r trefniadau adennill costau presennol rhwng gwledydd a'i gilydd:

## Gwledydd yr UE/Y Swistir

- EHIC – Anogir BILlau i roi gwybod am y defnydd o EHIC a ddyroddwyd gan Aelod-wladwriaethau'r UE/y Swistir i'r Tîm Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor yn NHSBSA drwy'r porth Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor (OHS) y gellir ei weld yn **www.services.nhsbsa.nhs.uk/ovt/Pages/**. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi Llywodraeth y DU i adennill y costau gan yr Aelod Wladwriaethau perthnasol neu'r Swistir. Drwy roi gwybod amdanynt, gall BILlau hefyd adennill 25% o'r costau y rhoddwyd gwybod amdanynt.
- S1 – Anogir rhoi gwybod am y defnydd o dystysgrifau S1 mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd i NHSBSA drwy Borth OHS. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi Llywodraeth y DU i adennill y costau oddi wrth yr Aelod-Wladwriaethau perthnasol neu'r Swistir.
- S2 – Dylai'r tîm OVM yn yr ysbyty anfon copi o'r S2 at BSA y GIG a nodi manylion triniaeth drwy'r Porth OHS cyn gynted ag y bydd y driniaeth wedi digwydd. Gall OVMs gysylltu â Swyddogion Cyswllt yn y GIGBSA. ovmqueries@nhs.net am gyngor pellach ar sut y gallant lanlwytho manylion i'r Porth.

## Gwledydd â Chytundebau Gofal Iechyd Cilyddol

**8.3** Nid oes modd adennill costau o dan unrhyw gytundebau gofal iechyd cilyddol â gwledydd eraill y byd (h.y. y tu allan i'r UE a'r Swistir) sydd ar waith ar hyn o bryd. Darperir triniaeth o fewn cwmpas y cytundeb unigol ar sail cilyddol dim tâl.

**8.4** Gallai'r sefyllfa hon newid yn y dyfodol pe bai Llywodraeth y DU yn llunio cytundebau gofal iechyd newydd gyda gweddill gwledydd y byd. Mae'n bosibl y byddai trefniadau o'r fath yn cynnwys trefniadau o'r fath i godi tâl/adennill costau. Cynghorir OVM i sicrhau eu bod yn gwybod beth yw newidiadau diweddaraf Llywodraeth y DU i gytundebau gofal iechyd cilyddol.

# Atodiad A

## Pryd i ddarparu gwasanaethau perthnasol i'r rhai nad ydynt wedi'u heithrio rhag ffioedd

Rhaid i gyrff perthnasol sicrhau bod triniaeth y mae clinigwyr yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ar unwaith neu ar frys yn cael ei darparu i unrhyw glaf. Gall methu â darparu triniaeth angenrheidiol ar unwaith fod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Dylid darparu triniaeth frys i unrhyw berson bob amser, hyd yn oed os nad yw taliadau wedi'u gwneud.

## Beth yw triniaeth angenrheidiol ar unwaith, triniaeth frys a thriniaeth lai brys?

Dim ond clinigwyr a all wneud asesiad ynghylch a yw claf angen triniaeth angenrheidiol ar unwaith, triniaeth frys neu driniaeth lai brys. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd angen iddynt wneud asesiadau cychwynnol yn gyntaf yn seiliedig ar symptomau'r claf a ffactorau eraill a chynnal ymchwiliadau pellach i wneud diagnosis. Bydd yr asesiadau a'r ymchwiliadau hyn yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ffioedd.

## Triniaeth angenrheidiol ar unwaith

Triniaeth angenrheidiol ar unwaith yw triniaeth sydd ei hangen ar glaf yn brydlon:

- i achub ei fywyd; neu
- i atal cyflwr rhag dod yn un lle mae bywyd yn y fantol; neu
- i atal niwed difrifol parhaol rhag cael ei wneud.

Rhaid i gyrff perthnasol bob amser ddarparu triniaeth sy'n cael ei hystyried yn angenrheidiol ar unwaith gan y clinigydd sy'n trin y claf, waeth a yw'r claf wedi cael gwybod am ffioedd neu wedi cytuno i'w talu ai peidio, ac ni ddylai'r driniaeth gael ei gohirio na'i hatal i bennu statws y claf o ran codi ffioedd arno nac i sicrhau taliad. Rhaid darparu'r driniaeth hyd yn oed pan fydd y claf wedi dweud na all fforddio talu.

## Triniaeth mamolaeth

Oherwydd y risgiau iechyd difrifol sy'n gysylltiedig â chyflyrau megis eclampsia a chyneclampsia, ac er mwyn diogelu bywydau'r fam a'r baban heb ei eni, rhaid ystyried bod pob gwasanaeth mamolaeth yn angenrheidiol ar unwaith. Mae gwasanaethau mamolaeth yn cynnwys yr holl wasanaethau cynenedigol, yn ystod genedigaeth ac ôl-enedigol a ddarperir i berson beichiog, person sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu fabi.

Ni ddylid byth gwrthod, neu ohirio, gwasanaethau mamolaeth oherwydd ffioedd. Er bod rhaid hysbysu pobl os yw ffioedd yn berthnasol i'w triniaeth, wrth wneud hynny ni ddylid eu hannog i beidio â derbyn gweddill eu triniaeth mamolaeth. Dylai OVM a chlinigwyr roi pwyslais arbennig ar roi gwybod i gleifion beichiog na fydd gofal iechyd mamolaeth pellach yn cael ei atal, waeth beth fo'u gallu i dalu.

## Triniaeth frys

Triniaeth frys yw triniaeth nad yw clinigwyr yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ar unwaith, ond na all aros hyd nes y gellir disgwyl yn rhesymol i'r person adael y DU. Mae hyn yn golygu hira'n byd y disgwylir i glaf aros yn y DU, mwya'n byd yw'r ystod o'i anghenion triniaeth sy'n debygol o gael eu hystyried yn rhai brys. Os yw'r person yn annhebygol o adael y DU am gryn amser (bydd hyn yn wir am rai mudwyr heb bapurau), mae triniaeth y gallai clinigwyr ei hystyried fel arall yn driniaeth lai brys (e.e. mathau penodol o lawdriniaeth ddewisol) yn fwy tebygol o gael ei hystyried yn driniaeth frys. Efallai na fydd hi bob amser yn glir pryd y gellir disgwyl yn rhesymol i berson adael y DU.

Gall clinigwyr seilio eu penderfyniad ynghylch a yw'n rhesymol gadael y driniaeth tan y dyddiad y disgwylir i'r claf adael y DU ar amryw o ffactorau, gan gynnwys:

- y boen neu'r anabledd mae cyflwr penodol yn ei achosi
- y risg y gallai oedi olygu bod angen ymyriad meddygol mwy cymhleth neu ddrud, neu
- y tebygolrwydd y bydd dirywiad sylweddol a allai olygu bod bywyd yn y fantol yn digwydd yng nghyflwr y claf os caiff triniaeth ei gohirio hyd nes iddo adael y DU.

Ar gyfer triniaeth frys, cynghorir cyrff perthnasol yn gryf i wneud pob ymdrech, gan ystyried amgylchiadau'r unigolyn, i anfonebu am daliad yn yr amser cyn i'r driniaeth gael ei threfnu. Ni ddylai'r driniaeth gael ei gohirio na'i hatal at ddibenion sicrhau taliad.

Ni roddir triniaeth yn rhad ac am ddim yn rhinwedd ei bod yn angenrheidiol ar unwaith neu ar frys. Ni ellir hepgor ffioedd sy'n daladwy ac, os na cheir taliad cyn y driniaeth, rhaid gwneud pob ymdrech i'w adennill ar ôl darparu'r driniaeth.

## Terfynu beichiogrwydd

Os na ellir disgwyl yn rhesymol i berson sydd am derfynu beichiogrwydd ac sy'n bodloni sail o dan Ddeddf Erthylu 1967 adael y DU cyn y dyddiad na fydd erthyliad yn opsiwn ymarferol iddo mwyach, dylid ystyried bod y driniaeth yn un brys ac ni ddylid ei gohirio na'i hatal er mwyn pennu statws codi ffioedd neu geisio taliad. Gall hyn, er enghraifft, fod yn wir am geiswyr lloches aflwyddiannus neu fudwyr heb bapurau sy'n annhebygol o adael y DU yn y tymor byr ond, mewn achosion eraill, efallai y bydd ymwelwyr yn gallu gadael y DU yn rhwyddach o fewn yr amserlen berthnasol.

## Triniaeth lai brys

Triniaeth lai brys yw triniaeth a all aros tan y dyddiad y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd claf yn gadael y DU. Rhaid i gyrff perthnasol beidio â darparu triniaeth lai brys hyd nes bod amcangyfrif o gost lawn y driniaeth wedi'i anfonebu.

## Cydweithio rhwng clinigydd ac OVM

Clinigwyr yn unig sy'n gyfrifol am benderfynu a yw angen claf am driniaeth yn angenrheidiol ar unwaith, yn frys neu'n llai brys, a dylai hynny gael ei gofnodi yn nodiadau'r claf.

Fodd bynnag, wrth benderfynu a ddylai cwrs triniaeth gofynnol fynd rhagddo hyd yn oed os na cheir taliad ymlaen llaw, neu a yw'n ddiogel all aros yn ddiogel hyd nes y gall y claf adael y DU (h.y. p'un a yw'n driniaeth frys neu lai brys ai peidio), bydd angen i glinigwyr wybod y dyddiad y disgwylir i'r claf adael y DU.

Cyfrifoldeb OVM yw casglu'r wybodaeth ynghylch pryd y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y claf yn gadael y DU mewn achosion o'r fath, yn seiliedig ar allu'r claf i wneud hynny. Yr OVM sy'n gyfrifol hefyd am bennu a oes gan y claf yr hawl i gael triniaeth am ddim yn y lle cyntaf ai peidio.

Ni ddylai statws y claf o ran codi ffioedd, neu ymholiadau i ganfod statws y claf o ran codi ffioedd, atal neu ohirio claf rhag cael ei asesu gan glinigydd i bennu pa mor frys yw'r driniaeth.

## Sut i benderfynu pryd y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd claf sy'n ymwelydd tramor yn gadael y DU

Ar gyfer triniaeth nad yw'n angenrheidiol ar unwaith, rôl yr OVM yw pennu pryd y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd claf yn gadael y DU. Bydd angen i glinigwyr wybod yr wybodaeth hon er mwyn penderfynu a yw angen y claf am driniaeth yn un brys neu a yw'n ddiogel ei gohirio nes iddo adael y DU.

## Mudwyr â phapurau

Fel un o amodau dod i mewn i'r DU, mae'n ofynnol i ymwelwyr tymor byr fod â digon o arian i ariannu eu harhosiad, ac arhosiad unrhyw ddibynyddion, yn ogystal â'u taith ymlaen neu eu taith ddychwelyd. Mae llawer o fudwyr â phapurau wedi archebu eu teithiau dychwelyd cyn dod i mewn i'r DU. Os oes angen triniaeth arnynt cyn y dyddiad dychwelyd hwnnw ac na allant dalu amdano ymlaen llaw, dylent drefnu taith ddychwelyd gynharach cyn y byddai angen y driniaeth ym marn clinigydd. Os na fyddai taith ddychwelyd gynharach yn rhesymol, a bod y driniaeth yn un frys, dylid darparu gofal ac adennill dyledion pan fo hynny'n briodol yn glinigol.

Disgwylir i'r rhai sydd heb archebu teithiau dychwelyd adael y DU i gael y driniaeth sydd ei hangen, unwaith eto, oni bai na fyddai'n rhesymol gwneud hynny. Fel dewis olaf, dylid defnyddio'r dyddiad y mae eu fisa yn ei gwneud yn ofynnol iddynt adael y DU fel y dyddiad dychwelyd.

## Mudwyr heb bapurau

Ar gyfer mudwyr heb bapurau (y gellid codi ffi ar rai ohonynt), gall y dyddiad tebygol erbyn pryd y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y person yn gadael y DU fod yn aneglur, a bydd rhaid ei asesu fesul achos. Ni ddylid disgwyl yn rhesymol i'r rhai nad oes ganddynt rywle i ddychwelyd iddo, er enghraifft, gan fod cyfyngiadau teithio neu fynediad yn eu gwlad wreiddiol, neu'r rhai mae amodau eraill y tu hwnt i'w rheolaeth yn eu hatal rhag gadael, adael y DU, hyd nes y caiff materion o'r fath eu datrys.

Ar gyfer rhai achosion sy'n ymwneud â mudwyr heb bapurau, bydd yn arbennig o anodd amcangyfrif y dyddiad y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt adael y DU. Efallai y bydd cyrff perthnasol am amcangyfrif y bydd cleifion o'r fath yn aros yn y DU am chwe mis i gychwyn, a gall y clinigydd wedyn ystyried a all y driniaeth aros am chwe mis ai peidio, gan gofio'r diffiniadau o driniaeth frys a thriniaeth lai brys a roddir uchod. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd y claf yn debygol o aros yn y DU am fwy na chwe mis ac, os felly, gellir defnyddio amcangyfrif hirach.

## Ailasesu penderfyniadau ynghylch pa mor frys yw triniaeth (yn berthnasol i bob claf sy'n destun ffioedd)

Os yw clinigydd wedi penderfynu bod yr angen am driniaeth yn llai brys, dylid ailasesu hyn os bydd y claf yn hysbysu'r corff perthnasol bod ei ddyddiad dychwelyd wedi'i ohirio am resymau dilys. Dylid ei ailasesu hefyd os bydd cyflwr meddygol y claf yn newid yn annisgwyl. Ar ôl cael gwybod nad yw eu hangen am driniaeth yn un brys, ac felly na fydd y driniaeth yn mynd yn ei blaen heb daliad ymlaen llaw, dylid hysbysu cleifion y dylent gyflwyno unwaith eto ar gyfer ailasesiad o ba mor frys yw eu triniaeth os bydd eu cyflwr yn newid. Fel arall, efallai y bydd amgylchiadau'r claf yn golygu bod angen apwyntiadau dilynol rheolaidd gyda chlinigwyr.

## Pa derfynau y dylid eu gosod ar driniaeth?

Er bod pa mor frys yw triniaeth yn fater o farn glinigol, nid yw hyn yn golygu y dylai triniaeth fod yn ddiderfyn; efallai y bydd rhywfaint o ddisgresiwn yn bosibl ynghylch graddau'r driniaeth a'r adeg y'i rhoddir.

Mewn llawer o achosion, efallai y bydd modd sefydlogi claf sy'n cael triniaeth angenrheidiol ar unwaith, gan ganiatáu iddo gael ei ryddhau'n ddiogel a rhoi amser iddo ddychwelyd adref i gael triniaeth bellach yn hytrach na mynd i gostau pellach y gellir eu hosgoi. Dylid gwneud hyn lle bynnag y bo modd, oni bai y byddai rhoi'r gorau i driniaeth neu gyfyngu ar driniaeth yn achosi dirywiad yng nghyflwr y claf.

## Amserlen a argymhellir ar gyfer pennu hawl claf i gael triniaeth am ddim a chymhwyso ffioedd perthnasol

Pan fydd angen triniaeth angenrheidiol ar unwaith ar glaf, efallai na fydd yn briodol, neu'n bosibl, ei hysbysu cyn dechrau'r driniaeth y gallai ffioedd fod yn berthnasol, na sicrhau ei gydsyniad i dalu'r ffioedd hynny. Dylai cleifion y mae'n ymddangos, ar ôl ateb cwestiynau sylfaenol, nad ydynt yn preswylio yma fel arfer neu nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan drefniadau gordal iechyd, neu nad ydynt yn darparu ffurflen EHIC, PRC neu S2 ddilys, neu dystiolaeth o ffurflen S1 gofrestredig, gael gwybod y gallai ffioedd fod yn berthnasol cyn gynted â phosibl. Wedi hynny, dylent gael eu cyfweld gan OVM i bennu hyn yn derfynol, pan fydd yn briodol yn feddygol gwneud hynny. Ni ddylai unrhyw un ddweud wrth gleifion na fydd ffioedd yn berthnasol hyd nes y bydd eu statws fel cleifion sy'n destun ffioedd neu gleifion sydd wedi'u heithrio rhag ffioedd wedi'i bennu'n ffurfiol.

O dan amgylchiadau lle mae'n bosibl ac yn briodol asesu ffioedd a gofyn am daliad cyn neu yn ystod cwrs o driniaeth sy'n angenrheidiol ar unwaith, dylai cyrff perthnasol egluro i'r claf na fydd triniaeth yn cael ei hatal na'i gohirio os na fydd yn talu ymlaen llaw neu'n darparu dogfen gofal iechyd cyfatebol briodol.

Os a phan y pennir bod ffioedd yn berthnasol, dylid hysbysu'r claf a chyflwyno anfoneb iddo am y driniaeth y mae wedi'i chael a/neu amcangyfrif o'r ffioedd y mae'n atebol amdanynt mewn perthynas ag unrhyw driniaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni ddylid annog cleifion a allai fod angen triniaeth angenrheidiol ar unwaith neu driniaeth frys bellach i beidio â'i derbyn, hyd yn oed os ydynt yn nodi na allant dalu. Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n briodol peidio â chyflwyno anfoneb hyd nes bod yr holl driniaeth angenrheidiol ar unwaith neu driniaeth frys wedi'i chwblhau ond, serch hynny, dylai cleifion gael eu hysbysu'n llawn am y ffioedd y gallent eu hwynebu.

Dylai ymwelydd tramor na ystyrir bod ei angen am driniaeth ar ôl cael ei dderbyn o adran damweiniau ac achosion brys neu o atgyfeiriad gan feddyg teulu yn angenrheidiol ar unwaith gael ei gyfweld gan yr OVM cyn gynted â phosibl a chyn i gwrs triniaeth gychwyn, i ganfod a oes ganddo'r hawl i gael triniaeth am ddim neu a fydd rhaid iddo dalu.

Fodd bynnag, os pennir bod y claf yn ymwelydd tramor y gellir codi ffioedd arno sy'n honni na all dalu, a bod hyn wedi'i wneud cyn i'r claf weld y clinigydd neu gael y profion diagnostig angenrheidiol, ni ddylid atal y claf rhag mynd i weld y clinigydd, gan y bydd angen i'r clinigydd benderfynu pa driniaeth sydd ei hangen (gan ystyried canlyniadau profion diagnostig angenrheidiol o bosibl) a pha mor frys yw'r driniaeth o ganlyniad i hynny. Dylid cofio bod profion diagnostig ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol neu'r clefydau heintus a restrir yn y Rheoliad Ffioedd wedi'u heithrio rhag ffioedd, hyd yn oed os yw'r diagnosis yn negyddol.

Pan fydd clinigwyr, ar ôl yr asesiad cychwynnol hwn, yn ystyried bod yr angen am driniaeth yn un brys, dylai cyrff perthnasol gael amcangyfrif llawn o gost triniaeth yn ystod y cyfnod cyn i'r driniaeth gychwyn, ar yr amod nad yw hyn yn oedi nac yn rhwystro triniaeth.

Wrth ddarparu triniaeth i ymwelydd tramor y gellir codi ffioedd arno, dylai clinigwyr ddogfennu'r driniaeth yn nodiadau'r claf ac anfon copi at y rheolwr gwasanaeth/darparu perthnasol.

# Atodiad B

## Preswylio Fel Arfer

Mae system gofal iechyd y DU yn un sy'n seiliedig ar breswylio, sy'n golygu bod yr hawl i dderbyn gwasanaethau perthnasol yn ddi-dâl yn seiliedig ar fyw'n gyfreithlon yn y DU. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â llawer o wledydd eraill sydd â systemau gofal iechyd sy'n seiliedig ar yswiriant.

Gelwir y prawf preswylio y mae'r DU yn ei ddefnyddio i bennu'r hawl i gael gwasanaethau perthnasol am ddim yn 'preswylfa arferol'. Diffinnir ymwelydd tramor yn y Rheoliadau Ffioedd fel unrhyw un nad yw'n preswylio fel arfer yn y DU.

Ni ddylid cymysgu'r cysyniad o breswylio fel arfer â phreswylio'n barhaol neu ymadroddion eraill sy'n dynodi preswylio mewn lle a ddefnyddir mewn deddfwriaeth ddomestig neu Ewropeaidd arall. Mae'r atodiad hwn yn esbonio sut y dylid cymhwyso'r cysyniad o breswylio fel arfer yng Nghymru.

Yn ymarferol, efallai na fydd angen ystyried y cwestiwn o breswylio fel arfer, er enghraifft, pan fo gan glaf yr hawl i gael triniaeth o dan drefniant gofal iechyd cilyddol a phan fo'n darparu'r ddogfen/dogfennau penodedig fel tystiolaeth o'r hawl hon. Yn yr achos hwn, bydd hi eisoes yn glir bod gan y claf yr hawl i gael rhywfaint o ofal anghenion sy'n codi am ddim, er bod yr union hawl yn dibynnu ar reolau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r dogfennau hyn. Ond lle nad yw hynny'n wir, y cwestiwn o breswylio fel arfer fydd y mater mwyaf sylfaenol i'w ddatrys wrth weithredu'r rheolau ffioedd yn eu cyfanrwydd.

Y rheswm am hyn yw os ystyrir bod claf yn preswylio fel arfer yn y DU, nid yw'r Rheoliadau Ffioedd yn berthnasol iddo, hyd yn oed os mai dim ond am ychydig ddyddiau neu wythnosau y mae'r claf wedi bod yn y DU. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i godi ffioedd ar rywun sy'n preswylio fel arfer ym Mhrydain Fawr am wasanaeth perthnasol.

## Ystyr preswylio fel arfer

Nid yw person yn preswylio fel arfer yn y DU dim ond am fod ganddo genedligrwydd Prydeinig; bod ganddo basbort Prydeinig; ei fod wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn y DU; bod ganddo rif y GIG; bod ganddo ei eiddo ei hun yn y DU; neu ei fod wedi talu (neu'n talu ar hyn o bryd) cyfraniadau Yswiriant Gwladol a threthi yn y DU. Nid yw 'preswylio fel arfer' wedi'i ddiffinio yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Ystyriwyd y cysyniad gan Dŷ'r Arglwyddi ym 1982 yn achos Shah v Barnet LBC[8] ac, er bod yr achos yn ymwneud ag ystyr preswylio fel arfer yng nghyd-destun y Deddfau Addysg, cydnabyddir bod modd cymhwyso'r penderfyniad yn ehangach a'i fod yn gymwys i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau Ffioedd.

Wrth asesu statws preswylio fel arfer person sy'n ceisio gwasanaethau perthnasol am ddim, bydd angen i gorff perthnasol ystyried a yw'n:

- byw'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig yn wirfoddol ac at ddibenion sefydlog fel rhan o drefn reolaidd ei fywyd ar y pryd, boed hynny am gyfnod byr neu gyfnod hir.

8 Shah v Barnet Cyngor Bwrdeistref Llundain ac apeliadau eraill [1983] 1 All ER 226.

Mae'r cysyniad o 'ddibenion sefydlog' wedi'i ddatblygu gan y llysoedd:

- Rhaid bod diben adnabyddadwy i breswylio yma, gall fod un diben neu sawl un, a gall fod am gyfnod cyfyngedig. Rhaid i'r diben am fyw yn y DU fod â digon o barhad i'w ddisgrifio'n briodol fel un 'sefydlog'.

Gall preswylio fel arfer fod am gyfnod hir neu gyfnod byr. Gall person fod yn preswylio fel arfer mewn mwy nag un wlad ar unwaith.

Mae'n bwysig nodi, ers 6 Ebrill 2015, fod rhaid i wladolion nad ydynt yn wladolion AEE sy'n destun rheolaeth fewnfudo gael caniatâd amhenodol i aros (ILR) yn y DU er mwyn bod yn preswylio fel arfer yn y DU[9]. Rhaid iddynt hefyd barhau i fodloni gofynion eraill y prawf h.y. bod yn y DU yn gyfreithlon; nid yw bod ag ILR ar ei ben ei hun yn ddigonol gan efallai nad yw'r person hwnnw, er enghraifft, yn preswylio yn y DU ar sail sefydlog briodol mwyach, ac efallai ei fod yn ymweld yn unig. O 1 Ionawr 2021, bydd gwladolion yr UE ac EFTA (ac eithrio pan fo ganddynt hawliau o dan y Cytundeb Ymadael) yn dod yn destun rheolaeth fewnfudo a bydd y gofyniad i fod ag ILR yn berthnasol.

## Pennu preswylfa arferol

Mae p'un a yw person yn preswylio fel arfer yn y DU yn brawf tair elfen yn y bôn (pedair elfen i rai unigolion) sy'n asesu a yw'r unigolyn hwnnw:

- yn y DU yn gyfreithlon;
- yma'n wirfoddol – bydd yn anghyffredin i berson beidio â bod yn y DU yn wirfoddol; ac
- yma ar sail sefydlog briodol am y tro; ac
- yn achos pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo, yn meddu ar ILR yn y DU neu
- yn achos dinesydd yr UE neu EFTA sy'n byw yn y DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020, wedi gwneud cais am statws/ennill statws o dan yr EUSS erbyn 30 Mehefin 2021.

## Bod yn y DU yn gyfreithlon

Mae gan ddinasyddion Prydeinig yr hawl awtomatig i breswylio yn y DU, felly maent bob amser yma'n gyfreithlon. Mae gan ddinasyddion Iwerddon yr hawl i ddod i mewn i'r DU a byw yma o dan drefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin. Bydd gwladolion yr UE ac EFTA a oedd yn byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 bron bob amser yma'n gyfreithlon. Rhaid iddynt wneud cais am statws o dan yr EUSS erbyn 30 Mehefin 2021 i gadw eu statws preswylio'n gyfreithlon. Mae'n bwysig nodi nad oes angen i berson fodloni'r 'prawf hawl i breswylio' ar gyfer buddion penodol, er enghraifft, er mwyn ystyried ei fod yn preswylio fel arfer yn y DU. Fel arfer, mae angen caniatâd ar wladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE i fod yn y DU, ac eithrio o dan rai amgylchiadau pan nad ydynt yn destun rheolaeth fewnfudo e.e. oherwydd eu perthynas â gwladolyn yr UE/EFTA sy'n preswylio yma, neu pan fyddant yn ddiplomyddion.

9 Gweler Adran 39 Deddf Mewnfudo 2014 sy'n darparu bod cyfeiriad yn narpariaethau codi tâl y GIG at bersonau nad ydynt yn preswylio fel arfer ym Mhrydain Fawr neu bersonau nad ydynt yn preswylio fel arfer yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys (heb amharu ar gyffredinolrwydd y cyfeiriad hwnnw) gyfeiriad at (a) pobl y mae angen caniatâd arnynt i ddod i'r DU neu i aros yno, ond nad yw hynny ganddynt a (b) pobl sydd â chaniatâd i ddod i'r DU neu i aros yno am gyfnod cyfyngedig oni bai bod yr absenoldeb hwnnw wedi'i roi yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio.

## Bod yn y DU ar sail sefydlog briodol am y tro

Er bod rhaid i'r rhan fwyaf o bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo hefyd fod â statws mewnfudo ILR (Caniatâd Amhenodol i Aros h.y. yr hawl i fyw yma'n barhaol), nid oes gofyniad i unrhyw berson fod yn byw yma'n barhaol neu am gyfnod amhenodol er mwyn bodloni'r prawf preswylio fel arfer. Nid oes isafswm cyfnod preswylio sy'n rhoi statws preswylio fel arfer[10].

Ar gyfer dinesydd Prydeinig, gwladolyn yr UE neu EFTA sydd wedi symud i'r DU cyn 31 Rhagfyr 2020 ac wedi arfer ei hawliau cytuniad, gwladolyn nad yw'n wladolyn yr AEE sydd ag ILR neu wladolyn nad yw'n wladolyn yr AEE sy'n destun rheolaeth fewnfudo, mae'n berffaith bosibl bod yn preswylio yma fel arfer o'r diwrnod cyrraedd, pan fydd yn amlwg bod y person hwnnw wedi dod yn breswylydd sefydlog ers cyrraedd. Bydd angen i ddinasyddion yr UE neu EFTA fod wedi gwneud cais am statws o dan yr EUSS erbyn 30 Mehefin 2021. Ym mhob achos, mater i'r corff perthnasol yw penderfynu a yw'r meini prawf o fewn y disgrifiad preswylio fel arfer yn cael eu bodloni.

Bydd person sy'n preswylio fel arfer yn gwneud hynny yn ei rinwedd ei hun ac nid yw'n drosglwyddadwy i aelodau eraill o'r teulu (ac eithrio o dan amgylchiadau penodol mewn perthynas â phlant – gweler y paragraff isod). Felly, os yw priod neu bartner sifil rhywun sy'n preswylio yma fel arfer yn byw dramor fel arfer ac angen triniaeth yn ystod ymweliad â'r DU, ni fydd yn preswylio fel arfer nac â hawl i gael triniaeth am ddim yn awtomatig. Rhaid i'r corff perthnasol gadarnhau a yw priod neu bartner sifil y person sy'n preswylio fel arfer yn bodloni un o'r categorïau eithriad yn ei rinwedd ei hun neu'n destun ffioedd.

Pan fo plentyn sydd fel arfer yn byw dramor yn ymweld â rhiant sy'n preswylio fel arfer, gall fod yn preswylio fel arfer yn unol â statws preswylio fel arfer ei riant os gall y rhiant ddangos bod y plentyn fel arfer yn byw gyda'r ddau riant. Os yw'r plentyn yn destun rheolaeth fewnfudo, bydd angen iddo hefyd fod â Chaniatâd Amhenodol i Aros (ILR) adeg cael triniaeth i gael ei ystyried fel rhywun sy'n preswylio fel arfer. Mae rheolau ychwanegol yn berthnasol i blant pobl sy'n arfer hawliau Cytundeb yr UE yn y DU cyn 31 Rhagfyr 2020.

10 Dylai OVM nodi bod Rheoliad 4(1)(b) o'r Rheoliadau Codi Tâl yn darparu eithriad rhag taliadau ar gyfer ymwelwyr tramor sydd wedi byw'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o ddim llai na blwyddyn yn union cyn yr amser y darperir y gwasanaethau. Nid oedd yr esemptiad hwn yn destun ystyriaeth yn R v Barnet LBC ex parte Shah [1983] 1 All ER 226 lle y penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi nad oes unrhyw gyfnod gofynnol y mae'n rhaid i berson fod yn preswylio ynddo er mwyn bod yn gymwys fel "preswylydd fel arfer".

# Atodiad C

| | **Wedi'u heithrio rhag talu'r gordal** | **Wedi'u heithrio rhag ffioedd** | **Wedi cael BRP** | **Dogfennaeth i ddilysu statws** |
|---|---|---|---|---|
| Talwyr y gordal iechyd (y mae eu fisâu yn dal i fod yn ddilys) | N | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort i ddangos bod caniatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU am fwy na 6 mis wedi'i roi ar ôl Ebrill 2015 (yn ystod y cyfnod pontio wrth i'r BRP gael ei chyflwyno dramor) |
| Dinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydain sy'n preswylio yn Ynysoedd Falkland | Y | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort i ddangos bod caniatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU am fwy na 6 mis wedi'i roi ar ôl Ebrill 2015 |
| Dibynyddion personél milwrol | Y | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP |
| Trosglwyddiadau o fewn cwmni | N | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort |

| | **Wedi'u heithrio rhag talu'r gordal** | **Wedi'u heithrio rhag ffioedd** | **Wedi cael BRP** | **Dogfennaeth i ddilysu statws** |
|---|---|---|---|---|
| Gwladolion nad ydynt yn wladolion yr AEE sy'n aelodau o deulu dinesydd yr UE sydd wedi arfer hawl yr UE cyn 31 Rhagfyr 2020 | Y | Y | N (wedi cael BRC) | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRC o fis Ebrill 2015<br>• Cardiau preswylio parhaol a dros dro (yn ystod y cyfnod pontio wrth i'r BRP gael ei chyflwyno dramor)<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort |
| Myfyrwyr o'r UE a'r Swistir mewn addysg amser llawn | N | N | N | • Gwiriadau ychwanegol i benderfynu a yw'r unigolyn wedi cael ad-daliad o'i IHS |
| Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol ac sy'n gwneud cais am ganiatâd i aros | Y | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• Cadarnhad gan yr Awdurdod Lleol bod y plentyn yn derbyn gofal<br>• Cadarnhad gan y Swyddfa Gartref ei fod wedi gwneud cais am ganiatâd i aros<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort (yn ystod y cyfnod pontio wrth i'r BRP gael ei chyflwyno dramor)<br>• BRP os rhoddir caniatâd i aros gan y Swyddfa Gartref |
| Pobl, a'u dibynyddion, sy'n gwneud cais am loches, diogelwch dros dro neu ddiogelwch dyngarol | Y | Y | N (wedi cael ARC) | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• ARC<br>• Cadarnhad gan y Swyddfa Gartref bod cais am loches neu gais am ddiogelwch dros dro neu ddiogelwch dyngarol yn dal i gael ei ystyried<br>• BRP os rhoddir statws ffoadur caniatâd cyfyngedig (gan gynnwys diogelwch dros dro neu ddiogelwch dyngarol) |

| | Wedi'u heithrio rhag talu'r gordal | Wedi'u heithrio rhag ffioedd | Wedi cael BRP | Dogfennaeth i ddilysu statws |
|---|---|---|---|---|
| Pobl, a'u dibynyddion, y byddai eu symud o'r DU yn groes i Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol | Y | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP<br>• O fis Ebrill 2015, gellid rhoi 'trwydded arhosiad byr' am gyfnodau o 6 mis neu lai; yn yr achos hwnnw, ni roddir BRP |
| Dioddefwyr caethwasiaeth fodern a'u dibynyddion sy'n gwneud ceisiadau am ganiatâd i aros | Y | Y | N | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• Cadarnhad gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU neu'r Swyddfa Gartref eu bod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl |
| Pobl sy'n gwneud ceisiadau am ganiatâd i aros o dan Gonsesiwn Trais Domestig y Swyddfa Gartref | Y | Y | N | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• Cadarnhad gan y Swyddfa Gartref bod Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd wedi'i roi<br>• O fis Ebrill 2015, os rhoddir caniatâd o dan y consesiwn, gellid rhoi 'trwydded arhosiad byr' am gyfnodau o 6 mis neu lai ac, os felly, ni fydd BRP yn cael ei rhoi |
| Pobl a wnaeth gais am ganiatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU cyn gweithredu'r gordal iechyd | Amherthnasol | Y | Y (ymgeisydd o fewn y wlad)<br>N (ymgeisydd y tu allan i'r wlad) | • Bydd gan fudwyr a wnaeth gais am ganiatâd pellach i aros yn y DU cyn gweithredu'r gordal iechyd ac sydd â chaniatâd i aros yn y DU BRP<br>• Bydd gan fudwyr a wnaeth gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r DU o dramor stamp/vignette mewn pasbort sy'n dangos bod caniatâd wedi'i roi am fwy na 6 mis cyn Ebrill 2015 |

| | Wedi'u heithrio rhag talu'r gordal | Wedi'u heithrio rhag ffioedd | Wedi cael BRP | Dogfennaeth i ddilysu statws |
|---|---|---|---|---|
| Ymwelwyr arhosiad hir arbennig (e.e. ymwelwyr meddygol neu academaidd preifat) | Y tu allan i'r cwmpas | N | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP wedi'i marcio i nodi'r categori ymwelwyr yn glir<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort (yn ystod y cyfnod pontio |
| Myfyrwyr tymor byr neu Rieni ymwelwyr Llwybr Myfyrwyr sy'n Blant | N | Y | Y | • Gwybodaeth ychwanegol ar y gwiriwr statws digidol<br>• BRP<br>• Stamp fisa/vignette mewn pasbort i ddangos bod caniatâd i ddod i mewn i neu i aros yn y DU am fwy na 6 mis wedi'i roi ar ôl Ebrill 2015 |